ECO'R WYDDFA

Rhif 49 MEHEFIN 1980 Pris 12c

# Neuadd i Waunfawr o'r diwedd?

**Yn groes i farn Cygnor Cymuned Waunfawr, penderfynodd pwyllgor cynllunio Cyngor Arfon ganiatáu cynllunio ar gyfer adeiladu neuadd yng nghanol y pentre.**

Dywedodd llefarydd ar ran pwyllgor neuadd Waunfawr fod hyn yn newyddion calonogol dros ben. 'Roedd cynrychiolwr o'r pwyllgor neuadd yn y cyfarfod cynllunio ar y pryd ac aeth y Cynghorydd O.T. Jones yno i ddatgan ei gefnogaeth i'r cynllun. Mae hyn ymhlith nifer o wahanol gynlluniau y bydd y pwyllgor neuadd yn eu hystyried dros y misoedd nesaf.

Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan bwyllgor neuadd Waunfawr penderfynwyd rhoi'r hawl i'r pwyllgor barhau gyda'r dasg o geisio cael neuadd i'r pentref. Cafodd y canlynol eu hethol i'r pwyllgor; Grace Dawson, Eurig Wyn, Alys Johnson, Edgar Owen, Dic Jones, Gareth Roberts, Bob Eaglestone, Steve Jones ac Alan Gruffydd a Clifford Parry i gynrychioli'r ieuenctid. Cydsyniodd John Roberts ac Emlyn Williams i weithredu fel arbenigwyr technegol y gallai'r pwyllgor alw am eu gwasanaeth o dro i dro. Bydd gan y pwyllgor hefyd hawl i gyfethol unrhyw un a ddymunant i'w cynorthwyo yn eu gwaith.

Mynegwyd siom yn y cyfarfod am fod y Cyngor Cymuned wedi penderfynu gwrthwynebu'r cynlluniau i godi neuadd yng nghanol y pentref. Dywedodd amryw eu bod yn bryderus iawn, yn enwedig am yr ieuenctid, a fyddai'n gorfod cerdded y strydoedd gyda'r nosau drwy fisoedd y gaeaf, os na cheid rhywle ar eu cyfer. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Eurig Wyn. Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ganol mis Mai bu'r pwyllgor yn trafod gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Sir y posibilrwydd o gael arian gan y Cyngor Sir a'r Swyddfa Gymreig i helpu i godi neuadd.



*Llongyfarchiadau i Glychau'r Grug, aelodau o Ferched y Wawr Llanrug ar ddod yn fuddugol yn eu cystadleuaeth yn Eisteddfod Môn. Arweinydd y parti yw Mrs N. Lovatt a'r cyfeilydd yw Mrs Carys Jones.*



## LLWYDDIANT YN EISTEDDFOD MÔN

*Llongyfarchiadau hefyd i D. Whiteside Thomas o Lanrug ar ennill cystadleuaeth erthygl addas i bapur bro yn Eisteddfod Môn. Croeso a phob dymuniad da iddo yn ei swydd fel golygydd erthyglau'r Eco.*

## YN EISIAU PALMANT A MAES PARCIO YN LLANRUG



*Mrs J.M. Jones yn cyflwyno deiseb ar ran trigolion Ffordd yr Orsaf i Syrfewr y Sir, Mr H.E. Davies. Gyda'r ddirprwyaeth o Lanrug 'roedd y Cynghorydd Mrs Pat Larsen.*

Dydd Gwener, Mai 23 cyflwynwyd deiseb i syrfewr Cyngor Sir Gwynedd gan y Cynghorydd Mrs Pat Larsen a deg o drigolion Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Bydd Mrs Larsen yn cyflwyno'r un dudalen i Gyngor Arfon.

Dymuniad y 200 o bobl sydd wedi arwyddo'r ddeiseb yw tynnu sylw'r awdurdodau at y peryglon cynyddol ar Ffordd yr Orsaf ac hefyd i'w hatgoffa fod y Cyngor Cymuned eisoes wedi gofyn am balmant ar hyd y ffordd o'r Swyddfa Bost hyd at Bontrhythallt. Maent hefyd yn gofyn am faes parcio er mwyn cael y ceir oddi ar y ffordd.

Codwyd y mater o balmant gyntaf ar Ffordd yr Orsaf mor bell yn ôl a 1968.

Gwnaed cais cyhoeddus tua dwy flynedd yn ôl i gael palmant ar un ochr i'r ffordd. Oherwydd arafwch yr awdurdodau i ymateb daeth y trigolion â'r mater i sylw Mrs Larsen a'r Aelod Seneddol, Dafydd Wigley.

Ateb Mr H.E. Davies, Syrfewr y Sir, i ymholiadau Mrs Larsen a Mr Wigley yn Nhachwedd 1978 oedd fod "cynllun wedi ei baratoi i greu palmant ar hyd Ffordd yr Orsaf'. Nodwyd yr anhawster fod y cynllun yn cynnwys nifer o ddarnau o dir a'u bod ym meddiant gwahanol bobl. Dywedodd Mr Davies mewn llythyr mai ei fwriad oedd gwneud 'y gwaith mewn darnau fel mae pryniant tir yn caniatau'.

Yn ddiweddar, fel canlyniad i drafodaethau rhwng y Cyngor Cymuned o Syrfewr y Sir, mae'r peiriannydd rhanbarthol 'yn paratoi cynlluniau a dogfennau newydd i'w hanfon at briswyr y tir er mwyn prynu tir i wneud llwybr troed rhwng stad Nant y Glyn a'r sgwâr. Y bwriad hefyd yw i ledu'r ffordd rhwng y warws a'r rheithordy er mwyn hwyluso'r anhawsterau gyda cheir yn parcio ar y ffordd'.

Er nad oes arian wedi ei neilltuo ar gyfer y gwaith yma yn ystod 1980-81 dywedodd Syrfewr y Sir fod posibilrwydd o gael arian o'r hyn sydd wedi ei ddarparu ar gyfer mân welliannau.

## DAU FRAWD YN BENCAMPWYR



*Dau bencampwr snwcer yn yr un teulu. Dyna beth yw Clive (17 oed) a Gerald (15 oed) — hogia Mr a Mrs W.J. Griffith, Pant Tirion, Llanrug. Clive yw pencampwr unigol adran gyntaf Bangor a'r Cylch ar ôl curo H. Davies o 'Cons Blacks' i dair ffrâm. Daeth Gerald yn bencampwr ail adran Bangor a'r Cylch a hynny yn ei dymor cyntaf! Curodd O. Edwards, Y Felinheli o dair ffrâm i un. Llongyfarchiadau calonnog iddynt.*

# ECO'R WYDDFA

RHIF 48 MAI 1980

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515).
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).
**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220).
**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant (Waunfawr 321). Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Ian Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon 3776).
**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227).
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Sycharth (Portdinorwic 726)
**BETWS GARMON:** Mrs Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Dafydd Price, Tŷ Capel (Llanberis 550)
**DEINIOLEN:** Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn yr Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN:** Leslie Larsen, Llygad yr Haul (Llanberis 533)
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Waunfawr 355)
**TREFNYDD PLYGU:** Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.
**TREFNYDD BUSNES:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.

### Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg ar 26 MEHEFIN
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol erbyn MEHEFIN 18 os gwelwch yn dda.

# Llythyrau

## CARNIFAL LLANBERIS GORFFENNAF 12-19, 1980

*Mae wythnos y Carnifal yn prysur nesáu, ac mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddilyn llwyddiant y llynedd trwy gynnal cyngerdd 'pop' awyr agored ar Faes Parcio Gwesty'r Fictoria ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12, 1980.*

*Mae'r rhaglen eisoes wedi ei chwblhau, a bydd prif artistiaid y byd 'pop' Cymraeg yn ymddangos yno sef: Geraint Jarman, Trwynau Coch, Bando, Rhiannon Thomas, Tecwyn Ifan, Jaffync ac amryw o grwpiau bychain.*

*Gan fod yr achlysur yn gyfarwydd i'r holl ddilynwyr fel prif ddigwyddiad y calendr 'pop' yng Nghymru, mae yn holl bwysig fod y trefniant stiwardio yn ddigonol, oherwydd y gall prinder o stiwardiaid effeithio ar holl lwyddiant y fenter.*

*Mae'r Pwyllgor yn apelio ar unrhyw fudiad neu unigolyn o Lanberis a'r cylch sydd â diddordeb mewn stiwardio i gysylltu â:* ***Mr Arwyn Roberts, 'Arlys', Stryd y Ffynnon, Llanberis*** *cyn gynted ag sydd bosibl.*

*Carai'r Pwyllgor dynnu sylw fod yr elw o'r cyngerdd yn mynd i gronfa'r Carnifal, sydd yn mynd at ehangu'r Ganolfan Gymdeithasol yn Llanberis.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Alwyn Thomas (Ysg)*

### CARNIFAL LLANBERIS A GEMAU GIAMOCS 1980

**Y mae Pwyllgor Carnifal Ll nberis yn estyn gwahoddiad i dimau o Fro'r Eco i gystadlu am dlws Eco'r Wyddfa eleni eto.**

**Mae lle i 4 tîm i ymuno â thimau Llanberis a Llanrug (Pencampwyr 1979).**

**Y 4 cais cyntaf i law, erbyn bore Gwener, Mehefin 7 fydd yn cael eu derbyn.**

**Cysylltwch â:**
**Iwan Ll. Williams**
**Bryn Idris,**
**Stryd Warden,**
**Llanberis.**
**Tel: Llanberis 515**

### CEISIADAU YNGLŶN AG ACHOSION LLWCH

*Annwyl Syr,*

*A gaf fi, drwy eich colofnau, dynnu sylw eich darllenwyr i'r ffaith fod ceisiadau oddi wrth hen ddioddefwyr llwch neu eu gweddwon, am iawndal o dan Ddeddf Pneumoconiosis 1979, i fod i'w gwneud cyn Gorffennaf 4, 1980. Wedi hynny bydd achosion newydd sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried ond bydd hen achosion a oedd a hawl i wneud cais cyn Gorffennaf 4, 1979 yn rhy hwyr. Pwy bynnag sy'n teimlo fod ganddynt hawl i wneud cais ac eisiau trafod yr achos gyda mi ymhellach, mae croeso iddynt drafod hyn gyda mi trwy gysylltu â'm swyddfa yn 21, Penllyn, Caernarfon (Rhif Ffôn: Caernarfon 2796).*

*Yn gywir iawn,*
*Dafydd Wigley*

## GALW ARTISTIAID LLEOL

*Annwyl Olygydd,*

*Ysgrifennaf ar ran Pwyllgor Aelodaeth Canolfan Tanybont, Caernarfon i roi gwybod i artistiaid lleol bod llwyfan parod a chroeso yn y Ganolfan i unrhyw grŵp neu unigolyn a hoffai ddiddori cynulleidfa am awr neu ddwy yn Gymraeg.*

*Os hoffech fanteisio ar y cyfle, ysgrifennwch i'r Ganolfan neu ffoniwch Caernarfon 5545 am fanylion a thelerau.*

*Ann Japheth*
*Elidir,*
*Stryd Garmon,*
*Caernarfon*

## . . . A GALW'R CANTORION . . .

*Annwyl Syr,*

*'Rwy'n sicr y bydd gan eich darllenwyr ddiddordeb mewn côr cymysg newydd a fydd yn cael ei sefydlu yn ardal Caernarfon maes o law — côr a fydd, gobeithio, yn apelio at gantorion o bob chwaeth gerddorol. Cefais wahoddiad i arwain y côr newydd hwn, ac 'rwy'n gobeithio y daw unrhyw un sy â diddordeb i gael sgwrs mewn cyfarfod hollol anffurfiol yn ysgol Maesincla, Caernarfon am 7.30 ar Fehefin 9. Yno gallwn benderfynu sut gôr yr hoffai'r aleodau ganu ynddo, cyn mynd ymlaen, gobeithio, i lenwi bwlch sy wedi bodoli ers talwm bellach yn yr ardal hon. Os nad oes modd dod i'r cyfarfod, gellir ffonio Bethesda 601094 am fanylion pellach. 'Rwy'n siŵr y bydd diddordeb yn ein menter, ac y rhowch sylw i'r cyfarfod uchod yn eich papur.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Gareth Glyn*
*Frogwy Fawr,*
*Llangwyllog,*
*Môn.*




*Llun: Castle Studio, Caerffili*

## ASTUDIO'R ECO YNG NGHAERFFILI

*5 Pen-yr-allt*
*Watford Parc*
*Caerffili*
*CF8 1NP*
*Canol Morgannwg.*

*Annwyl Olygydd,*

*Diolch am anfon 2 gopi o Eco'r Wyddfa i ni. Roeddynt yn help mawr i'n cywaith ar bapurau bro. 'Rydym ni bron wedi casglu holl bapurau bro Cymru ond dydyn ni ddim wedi derbyn Llafar Bro, Llais Ogwan, Pethe Penllyn, Y Post a Yr Wylan. 'Rydyn ni wedi anfon i ffwrdd am rai sy' wedi mynd i'r gwellt ond dim ond 3 sy' wedi cyrraedd. Mae dau ar ôl. Eu henwau yw Yr Ancr a Bro Ystwyth. Mae pawb yn y dosbarth yn mwynhau gwneud y cywaith. Yn codi o'r cywaith mae papur bro Dosbarth 10. Ei enw yw Caws Caerffili. Tracey Owen wnaeth ddewis yr enw.*

*Dyma fy llun i a fy ffrind, Tracey Owen, yn trafod Eco'r Wyddfa.*

*Cofion Gorau*
*Amanda Coombs a*
*Tracey Owen*


**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo**



**Ffôn : LLANBERIS 814**

**GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR**

# DINORWIG

CYDYMDEIMLIR Â – Mrs M.J. Roberts, Islwyn a Mr a Mrs John Roberts, 3 Maes Eilian a'r cysylltiadau teuluol ym marw mam y ddwy wraig yn ddiweddar ym Mhenmachno. Hefyd â Mr a Mrs David John Thomas, Tŷ Capel Sardis ym marw brawd a chwaer i Mrs Thomas yn ddiweddar yn Northampton.

LLONGYFARCHIADAU – i Nain, sef Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, ar eni ei hŵyr cyntaf sef Arwyn, mab bychan i Mary Lloyd, y ferch a'i gŵr, Mr a Mrs Isfryn Evans, Bryniau Heulog, Penrhosgarnedd. Pob bendith i'r dyfodol.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Bydd Trip Blynyddol y Gymdeithas eleni yn mynd i Southport a Lerpwl. Cychwynnir o'r Allt Ddu am wyth y bore SADWRN MEHEFIN 9. Derbynnir enwau gan yr ysgrifenyddes Mrs Megan P. Morris, Minffordd, neu Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel M.C. Pris cludiad yw £2 y pen.

DAMWAIN – Cyfarfu Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian ag anaf i'w choes tra'n dilyn gorchwylion yn ei chartref. Aethpwyd â hi i Ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth a chafodd ddod adref wedi hynny. Gwellhad buan iddi.

DIOLCH – Dymuna Miss Salome Jones, 6 Bro Elidir a'i chwaer Mrs M. Clarke, Lerpwl, ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a'r cardiau a'r llythyrau a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar.

CYMANFA YSGOLION SUL Dosbarth Dinorwig a Llanberis – Llongyfarchiadau i Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir a Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ac Alwyn Jones, a Wyn Jones, 3 Bro Elidir ar eu llwyddiant gyda'r Arholiad Maes Llafar yn y Gymanfa.

CYMANFA BEDYDDWYR ARFON – Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill marciau llawn yn yr Arholiad Llafar i rai o 8 i 11 oed, Ruth Elizabeth Jones, Foel Gron; Sally Brown, Blue Peris; Gwilym Irfon Jones, Tan-y-Buarth Uchaf. Disgyblion o Ysgol Sul Sardis ydynt. Da iawn chwi.

SARDIS (B.) – GŴYL BREGETHU – Gwasanaethpwyd yng Ngŵyl Bregethu'r Sulgwyn eleni gan y Parch. T.G. Morgan, Llanelli, cyn-weinidog Caersalem (B) Caernarfon.

DIOLCH – Dymuna Isfryn a Mary (Lloyd gynt) teulu Bryniau Heulog, a theulu 2 Maes Eilian ddiolch yn gynnes iawn am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab bychan, Arwyn. Diolch yn fawr iawn.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Mewn cyfarfod o Bwyllgor Lleol y Gymdeithas uchod a gynhaliwyd nos Wener, Mai 16, penderfynwyd gwneud ymdrech arbennig i godi arian at gyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd ym 1988.

Bydd dwy ffurf i'r ymdrech yn digwydd nos Wener, 13 Mehefin, pryd y cynhelir 'Encil Ddistaw' (am awr), yn cychwyn am 7.00pm yng nghapel Bosra, Penisarwaun; Tabernacl, Deiniolen; St. Mair, Dinorwig, a Brynrefail (M.C.), Brynrefail. Ar y noson honno hefyd bydd 'Taith Gerdded' yn cychwyn o Brynrefail (Llythyrdy), a Phenisarwaun (Siop Gron) am 6.00pm, Deiniolen (Llyfrgell) am 6.30pm, a Dinorwig (Y Ganolfan) am 7.00pm, gan deithio i lawr Y Fachwen yn ôl i'r gwahanol bentrefi. Anfonwyd cyflenwad o ffurflenni pwrpasol i Ysgrifenyddion eglwysi'r cylch ar gyfer y sawl sydd am encilio neu gerdded.

Dymuna'r Pwyllgor trwy golofnau'r 'Eco' werthfawrogi cefnogaeth parhaol yr ardalwyr i'w gwaith, a'u gwahodd i amlygu eu haelioni arferol trwy gymryd rhan bersonol yn yr encilio neu'r cerdded, neu drwy noddi personau sy'n bwriadu gwneud hynny.

### DERBYNIADAU

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r Eco:**

**50c, Di-enw, Penisarwaun**
**£1, R. A. Davies, Llanberis, Mr a Mrs Owie Lewis, Deiniolen, Mrs Mary H. Morris, Tŷ Capel Cefn y Waun, Deiniolen.**
**£2, Er Cof am Mrs Ann Owen, 1 Tŷ Macpelah, Deiniolen**
**£5, Er Cof am Mrs Jane Griffith, 2 Tai Macpelah, Deiniolen gan John a Marian Griffith, Tanyrhenffordd, Clwt y Bont.**
**£1.50 – Di-enw, Llanrug.**
**£5. J. Moxen, Llanbedrog**
**£1. W.F. A W.M. Roberts, Caer.**
**£1. Mr a Mrs Tegid Roberts, Arwel, Pontrhythallt.**
**£2: Miss E. Jones, Trelawnyd**

£1 – Mrs E.A. Jones, Tan-y-Buarth Uchaf, Dinorwig. £1 – Di-enw, Deiniolen.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

### ER GWYBODAETH

**Prif waith ein gohebwyr pentrefi yw casglu newyddion o'n pentrefi, a'u trefnu bob mis ar gyfer Golygydd Newyddion yr Eco. Felly DERBYN newyddion sydd wedi cael eu hysgrifennu'n barod gan y gwahanol ysgrifenyddion a threfnyddion cymdeithasau a wna'r gohebwyr. Nid ydynt, gan amlaf, yn ysgrifennu'r newyddion eu hunain. FELLY OS GADEWIR ENW(AU) ALLAN O UNRHYW ADRODDIAD YNG NGOLOFNAU'R PENTREFI HOFFEM BWYSLEISIO MAI CYFRIFOLDEB Y SAWL A'I HANFONODD YW HYN. Hynny yw, NID CYFRIFOLDEB Y GOHEBWYR PENTREFI YW CYWIRDEB CYNNWYS YR ADRODDIAD.**

**'Rydym, fel bwrdd golygyddol yn cadw pob adroddiad yn ei ffurf wreiddiol, ac mae rhyddid i unrhyw un gysylltu â ni i archwilio'r copiau.**

**– Y Golygyddion**

# WAUNFAWR

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos Iau, Mai 1 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Llongyfarchwyd Mrs Morfa Evans ar enedigaeth wyres fach, ac estynnwyd dymuniadau am adferiad buan i Miss C.E. Williams ac i Mrs Griffith, Bronallt. Cyhoeddwyd fod y palmant yng Nghroesywaun wedi ei adnewyddu ar ôl i'r Cyngor dderbyn cwynion gan y Sefydliad. Gwnaed trefniadau pellach ar gyfer y trip i Bowys ar Fehefin 21.

Y wraig wadd am y noson oedd Mrs Katie Jones a fu'n trafod y penderfyniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain. Diolchodd Mrs Idris Jones iddi ac enillydd y raffl a roddwyd gan Mrs Southworth oedd Mrs Katie Jones. Mr David Jones. Y Swyddog Nyrsio Rhanbarthol fydd yn gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys nos Iau, Mehefin 5.

LLONGYFARCHIADAU – i Allan Cotton, Bryn Hyfryd ar ei briodas â Felicity Adams o Paington.

I Olwen Griffiths, Ty'n Ronnen ar ei phriodas â Noel Stephenson o Lancaster.

I Wendy Pierce ar ei phriodas â Vincent McCewan.

I Mr a Mrs Peter Evans, Preswylfa am fod yn daid a nain. Ganwyd geneth i'w merch Rhiannon.

GWELLHAD BUAN – Dymunir gwellhad buan i'r canlynol sydd wedi bod yn cwyno – rhai ohonynt wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty: Mr Wyn Griffiths, Ger y Nant; Mrs N. Pritchard, Canolfan Carpedi; Mrs Idris Humphreys; Mrs J. Bailey Williams, Llwyn Afon; Miss Annie Davies; Moiss M. Peters, Weriglodd Goch; Mrs Annie B. Pritchard; Mrs Mary Davies, Bryn Eithin; Y Ficer, y Parch Trefor Jones a Miss Hughes, Dolafon sydd yn Southampton.

ANFON COFION – Anfonwn ein cofion at Mrs Margaret Jones, Llannerch sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Maesincla, Caernarfon. Mae Mrs Jones wedi gwella'n dda iawn ac yn cael dod adref yn achlysurol. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau ati.

PROFEDIGAETHAU – Cydymdeimlir â Mrs Taylor, Dolerddi ar golli ei brawd; Mr Morris Pritchard, Tref Eilian ar golli ei chwaer; Mrs Peter Evans, Preswylfa ar golli ei chwaer, fu farw yn Ffrainc tra yno ar ei gwyliau; Mrs M. Austin Jones, Penrhos a'r teulu oll ar golli priod a thad. Hefyd bu farw Elias Owen, Ystrad Farm, Betws Garmon; cydymdeimlir â'i unig fab.

Y GYMANFA – Llongyfarchiadau i Mr Idris Humphreys, Croes y Waun fel arweinydd y Gymanfa yn Rhyd Ddu. Diolch yn fawr iddo am ei waith rhagorol. Diolch yn fawr hefyd i Mr Williams, Whiteways am roi'r bws yn ddi-dâl i'n cludo yno. Cawsom noson lwyddiannus iawn er mai ychydig wnaeth ymateb i'r apêl am gefnogaeth – gresyn hynny.

MERCHED Y WAWR – Nos Iau, Ebrill 24 cynhaliwyd Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys tuag at Bwll Nofio Therapiwtic, Pendalar. Yn absenoldeb Mrs Catherine Jones, y brifathrawes, oherwydd gwaeledd, agorwyd y Noson gan y dirprwy brifathro Mr Myfyr Parry. Llywydd y Noson oedd Mrs M. Austin Jones a diolchwyd i bawb gan Irene Roberts. Gwnaethpwyd y coffi gan Mrs Katie Jones, Mrs Gweneirys Jones a Mrs Hughes, Llys Meredydd, a bu aelodau'r pwyllgor yn cynorthwyo gyda'r stondinau. Enillwyd y fasged ffrwythau a roddwyd gan y pwyllgor gan Gillian Wyn, ac enillwyd y botel sieri a roddwyd gan Gillian Wyn gan Luned Roberts. Gwnaethpwyd elw o £124 a dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu rhoddion a'u cefnogaeth.

Nos Iau, Mehefin 26 cynhelir ein Helfa Drysor flynyddol, ond eleni bydd yn agored i'r pentref gyda'r elw'n mynd at Gronfa Goffa Rhian Wyn. Bydd yn cychwyn rhwng 6 a 7 o Neuadd yr Eglwys a'r pris fydd 40c i oedolion a 10c i blant. Trefnir bwyd ar ddiwedd yr helfa – sef sgampi a sglodion (£1.50) neu gyw iâr a sglodion £1.35 a bydd selsig a sglodion i'r plant am 35c. Rhowch eich enwau i Cadi Jones, Bryn Meurig, Carys Jones, Saron Wen neu Luned Roberts, Sŵn y Gwynt erbyn Mehefin 18 os gwelwch yn dda.



*Eleni bydd Selwyn Griffith o Fethel yn dathlu 25 mlynedd fel Clerc Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen. Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau am y 25 nesa'.*


**Gwesty Dolbadarn**

Tŷ Rhydd-Feddiant

**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

**MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL**

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



# PENISARWAUN

YMDDEOLIAD – Dymuniadau da i Elwyn Hughes, Bryn Eglwys ar ei ymddeoliad. Bu Mr Hughes am flynyddoedd yn gweithio gydag Adran Briffyrdd a Thrafnidiaeth y Cyngor Sir. Mae Ceri, ei wraig, wedi ymddeol ers rhai misoedd. Ymddeoliad hir a hapus i'r ddau.

HELYNT YN WRECSAM – Aeth rhai o bobl ifainc y fro i Wrecsam ar Sadwrn, Mai 17 i weld y gêm rhwng Cymru a Lloegr. Mwynhawyd y gêm yn fawr ganddynt yn enwedig gan fod Cymru wedi ennill o bedair gôl i un. Ond wedi'r gêm daeth llanciau at eu bws a cheisio mynd ar y bws. Malodd un o'r ymosodwyr ffenest y bws ond wrth lwc fe'i daliwyd, a'r un noson aeth o flaen 'ei well' a chafodd ddirwy o £350.

CARNIFAL – Cynhelir y Carnifal a'r gweithgareddau yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Gorffennaf. Bydd y Carnifal a'r Mabolgampau nos Wener, Gorffennaf 4. Gobeithir trefnu noson o chwaraeon i'r plant: rownderi i'r genethod a phêl-droed i'r hogiau gan gynnwys pedair ysgol gynradd sef Penisarwaun, Y Gelli, Waunfawr a'r Santes Helen. Bydd 'chwaneg o wybodaeth ar gael yn y rhifyn nesaf a hefyd fe werthir rhaglenni o gwmpas y pentref.

MARW – Yr oedd yn ddrwg gennym glywed am farwolaeth Mrs Owen, Cae Corniog Bach wedi iddi dreulio tua phythefnos yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Yr oedd yn foneddiges hynaws a charedig. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu gofid a'u tristwch.

ENWAU RHAGOR O FUDDUGWYR EISTEDDFOD PENISARWAUN – ADRODD – Dan 5: 1. Osian, 2. Ken, 3. Ceirion. Ail-iaith dan 5: 1. Andrea. 5-7: 1. Rhian, 2. Dyfed, 3. Dylan. Ail-iaith 5-7: 1. Andrew Turner. 7-9: 1. Sioned R., 2. Dylan, 3. Sioned W. ac Emyr. Ail-iaith 7-9: 1 (cyd): Timothy a Berwyn. 9-11: 1. Dylan a Rhian, 2. Delyth ac Alison. Parti Adrodd Oed Cynradd: 1. Parti Genod Ni, 2. Parti Iola. 11-13: 1. Sharon, 2. Meirwen. 13-15: 1. Gwen Lloyd Williams. Parti Adrodd Oed Uwchradd: 1. Parti Gwen.

CANU – Dan 5: 1. Ken, 2. Sioned, 3. Hefina. 5-7: 1. Bedwyr, 2. Rhian, 3. Dylan. 7-9: 1. Eurgain, 2. Dylan, 3. Sioned W. a Sioned R. Parti Canu dan 9: 1. Parti Rhian, 2. Parti Siôn, 3. Parti Emyr a Pharti Susan. 9-11: 1. Dylan, 2. Rhian. Parti Canu 9-12: 1. Parti Dylan, 2. Parti Gwenllian a Pharti Catrin. 11-13: 1. Pamela, 2. Meirion a Sharon.

COGINIO – 'Victoria Sponge': 1. Karen, 2. Bethan, 3. Rhian. 'Sausage Rolls': 1. Bethan, 2. Rhian.

Mae Pwyllgor yr Eisteddfod wedi penderfynu peidion â chynnwys lluniau'r buddugwyr yn yr Eco,

*Mae unrhyw luniau o fuddugwyr a ymddangosir yn y rhifyn hwn wedi eu hanfon i mewn gan y rhieni.*

YR URDD – Cafwyd cwmni Dafydd Iwan i ddifyrru'r aelodau yng nghyfarfod olaf y tymor. Mwynhawyd caneuon yn amrywio o 'Faled y Welsh Not', i hanes y 'Tair Hwyaden Dew ar Fferm yr Hafod.

DIOLCH – Dymuna Nant a Tegid Roberts, Arwel, ddiolch i'w cymdogion a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur geni Ynyr Gruffudd.

CASGLU – Diolch i Gwen Williams a Ffion Larsen am gasglu £6.82 i gronfa Eithniog – cartref Cheshire, a diolch i'r ardalwyr am eu haelioni.

EGLWYS Y SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Mai 12. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Ganon Glyndwr Williams, Rheithor Caernarfon. Rhoddodd sgwrs amserol iawn am y ffordd y mae hen bethau yn dod yn ôl i gefn gwlad. Diolchwyd iddo gan Mrs B. Mowll a Mrs A. Pritchard, Pensarn. Rhoddwyd y te gan Mrs G. Lewis a Mrs M. Jones, Llys y Gwynt.

Fe gynhaliwyd Gŵyl Gorawl yn Eglwys Santes Helen. 'Roedd cyfarfod y plant bnawn Sul, Mai 18 yn llwyddiannus iawn. 'Roedd yr Eglwys yn orlawn. Arweiniwyd y canu gan Reithor Llanrug. Cafodd pob un o'r plant seren aur.

Anfonwn ein cyfarchion at Mrs E. Jones, 6 Bryntirion. Nid ydyw wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar, ond balch ydym o'i gweld o gwmpas. Da yw clywed fod Mrs Eirlys Williams, 23 Bryntirion yn gwella at ôl llosgi ei braich.

Cynhelir noson Goffi dan Nawdd Undeb y Mamau, nos Lun, Mehefin 2. Bydd yr elw tuag at Gymorth Cristnogol.

CYDYMDEIMLIR – Â Mr a Mrs Alwyn Williams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Delyth.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Mewn cyfarfod o Bwyllgor Lleol y Gymdeithas uchod a gynhaliwyd nos Wener, Mai 16, penderfynwyd gwneud ymdrech arbennig i godi arian at gyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd ym 1988.

Bydd dwy ffurf i'r ymdrech yn cymryd lle ar nos Wener, 13 Mehefin, pryd y cynhelir 'Encil Ddistaw' (am awr), yn cychwyn am 7.00pm yng nghapel Bosra, Penisarwaun; Tabernacl, Deiniolen; St. Mair, Dinorwig, a Brynrefail (M.C.), Brynrefail. Ar y noson honno hefyd bydd 'Taith Gerdded' yn cychwyn o Brynrefail (Llythyrdy), a Phenisarwaun (Siop Gron) am 6.00pm, Deiniolen (Llyfrgell) am 6.30pm, a Dinorwig (Y Ganolfan) am 7.00pm, gan deithio i lawr Y Fachwen yn ôl i'r gwahanol bentrefi. Anfonwyd cyflenwad o ffurflenni pwrpasol i Ysgrifenyddion eglwysi'r cylch ar gyfer y sawl sydd am encilio neu gerdded.

Dymuna'r Pwyllgor trwy golofnau'r 'Eco' werthfawrogi cefnogaeth parhaol yr ardalwyr i'w gwaith, a'u gwahodd i amlygu eu haelioni arferol trwy gymryd rhan bersonol yn yr encilio/cerdded, neu drwy noddi personau sy'n bwriadu **gwneud hynny.**



Dyma lun o Kenneth Vincent Richardson, Bryn Hyfryd, a enillodd y wobr gyntaf am ganu a'r ail am adrodd o dan 5 oed yn Eisteddfod y Glasgoed.

DIOLCH – Mae Mr a Mrs William Jones, 13 Bryntirion yn diolch o galon i'r teulu ac i'w cyfeillion oll am gofio eu priodas aur.

# CWM-Y-GLO

CYDYMDEIMLWN – Ar ran ei gydweithwyr ar y papur hoffwn gydymdeimlo â Gohebydd yr Eco yng Nghwm y Glo, Mr Dafydd Price, yn ei brofedigaeth o golli ei dad (Golygydd Newyddion)

DIOLCH – Mae Mr a Mrs Dafydd Price a'r teulu yn dymuno diolch yn fawr iawn i'w cymdogion, cyfeillion a phawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth.

FESTRI'R PASG – Yn Festri'r Pasg a gynhaliwyd yn ddiweddar etholwyd Mr E.G. Owen, Talgwynedd fel is-warden y Rheithor a Mr R.A. Roberts, Bryn Gro yn is-warden y bobl. Etholwyd hefyd aelodau o'r Cyngor plwyfol Eglwysig ac fe dderbyniwyd y fantolen.

UNDEB Y MAMAU – Yn ystod mis Ebrill fe gynhaliwyd cyfarfod o Undeb y Mamau yn y Ganolfan Gymuned gyda Mrs Williams, y Rheithordy yn llywyddu a'r Rheithor yn offrymu'r gweddiau agoriadol. Yn ystod y cyfarfod fe dynnwyd allan raglen gynhwysfawr ar gyfer tymor 1980;81. Miss C. Hughes oedd yn canu'r piano a'r gwesteion oedd Mrs D. Jones 1 Fron Gader a Miss C. Hughes 1 Pool Street. Yng nghyfarfod mis Mai, llywyddwyd gan Mrs Williams, Y Rheithordy ac fe gymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan y Rheithor gyda Miss C. Hughes wrth y piano. Y gŵr gwadd oedd Mr Stanley Roberts, Hafod Olau, Llanrug sydd yn brifathro mewn ysgol gyfun fawr yn Brunai, Borneo. Rhoddodd Mr Roberts beth o'i hanes mewn ysgolion yn Zambia, Nigeria, Malasia ac ym Mrunai. Cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol a gofynnwyd llawer o gwestiynau i Mr Roberts a diolchwyd iddo gan Mrs H. Williams, Nant Forgan. Darparwyd y te gan amryw o'r aelodau a diolchwyd iddynt gan Mrs Williams, y Rheithordy.

CYDYMDEIMLWN – Yn fawr iawn â Mr a Mrs Aled Evans ym marwolaeth ei frawd – Mr Gwilym Evans, Terrace.

LLONGYFARCHION – Estynnwn ein llongyfarchion i'r rhai canlynol o Ysgol Sul Sant Gabriel ar gael eu gwobrwyo yng Ngŵyl Gorawl Eryri a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Helen, Penisarwaun: Carys Williams, Rona Mai Humphreys, Alan Edward Sinclair, David Foulkes, Rhian Morris, Robert Cenwyn Humphreys, Nia Wyn Hughes, Andrew Williams, Karen Ann Foulkes, Alison Mary Jones, R. Christopher Jones, Myfany a Doreen Price. Fe ddymunwn longyfarch athrawon yr Ysgol Sul hefyd am eu llafur gyda'r plant yn y gwahanol adrannau.

MERCHED Y WAWR – Cafwyd noson goffi, gyda byrddau Moes a Phryn lwyddiannus iawn dan nawdd y gangen leol o Ferched y Wawr yn y Ganolfan Gymdeithasol nos Fercher, Mai 21.

Gwnaethpwyd elw sylweddol iawn tuag at wibdaith y pensiynwyr i Landudno. Hoffwn atgoffa pawb sydd yn bwriadu dod ar y trip y bydd y bws yn cychwyn o'r pentref am 12 o'r gloch ar Fehefin 21.

Enillwyr y gwobrau raffl oedd, Dafydd, Llwyncoed; June Redding; Ceinwen Jones, Penrhos; Mr Haydock, Uchwlaw'r Ffynnon; Ruth, Bron Nant; Martin, Argraig; Terry, Bryn; Ann, 10 Dolafon a Mrs Gwyneth Chick, Tan y Bryn. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni tuag at achos mor deilwng.

CANLYNIADAU'R TYMOR I DÎM PÊL-DROED HOGIA CWM

Llanberis (Cartref), colli 6-1, Gwyn Morris yn sgorio. Llanberis (oddi cartref), Colli 5-0. Bontnewydd (oddi cartref), Colli 7-1, Gwyn Roberts yn sgorio. Bontnewydd (Cartref) Colli 6-2. Gwyn Morris a Nigel Orritt yn sgorio. Mountain Rangers (oddi cartref), Curo 7-4. Wyn Sinclair (4), Dilwyn Morris (2), Michael John Williams (1). Waunfawr (Cartref), Curo 2-1. Dilwyn Morris a Wyn Sinclair. Waunfawr (oddi cartref), Colli 4-2, Iestyn Jones a Nigel Orritt. Y Felinheli (Cartref), Curo 2-1, Dilwyn Morris a David Jones. Y Felinheli, (oddi cartref), Cyfartal 1-1. Dilwyn Morris yn sgorio.

Y DIWEDDAR MR GWILYM EVANS – Prudd yw meddwl bod ein cyfaill annwyl wedi'n gadael. 'Roedd yn gymeriad hynod o gymeradwy, a chafwyd tystiolaeth o hyn, pan ddaeth nifer fawr o'i gyfeillion i'w hebrwng ddydd ei angladd. Meddai'r gallu i'w anwylo ei hun i bawb, gyda'i ddywediadau slic, a'i hiwmor iach. 'Roedd hefyd yn gymwynaswr dihafal, a gwn am lawer a dystiolaetha am ei garedigrwydd.

Er yn ieuanc, ymrôdd i weithgareddau'r achos yn Capel Mawr, a diddordeb arbennig yn y canu. Edmygwyd ei wasanaeth pan ddewiswyd ef yn flaenor. Cymerai ddiddordeb yn achos y Methodistiad o'i gychwyn yn yr ardal a loes iddo oedd pan orfu cau y capel.

Ymunodd â chapel y Tabernacl, ac yn ddiymdroi ymrôdd i waith yr achos. Yma hefyd dewiswyd ef yn ddiacon ac yn arweinydd y gân.

Diolch am gymeriad mor ddiddan a lliwgar.

NOSON O WOBRWYO – Bydd bwffe yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis, i'r tîm pêl-droed ar Fehefin 20. Croeso i rieni, perthnasau a chyfeillion. Y gost yw £2.50 yr un. Yr enwau i Gwilym Williams, David Price neu Evan Owen erbyn Mehefin 2. Bydd bws ar gyfer pawb.

LLONGYFARCHIADAU – I Reolwr tîm pêl-droed Llanberis, sef Mr Gwilym Williams, Bryn. O dan ei ofalaeth enillodd Llanbêr bencampwriaeth Cynghrair Arfon a'r Cylch a hefyd gwpan Lees i dimau Gogledd Cymru.

Dymuna'r rheolwr ddatgan ei ddiolch am y tymor i'r holl chwaraewyr a hefyd y cefnogwyr.

GWAELEDD – Deallwn fod Eleazar Rowlands, 4 Dolafon, yn ysbyty Bryn Seiont. Ein cofion gorau ato a phawb arall sydd yn yr ysbyty.


**W.J.GRIFFITH**

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

*Ffôn: Caernarfon 3248*

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP

Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.

*Dim un dasg rhy fychan.*
*Dim un dasg rhy fawr.*

# POB LWC YM MAE COLWYN



*Parti Cerdd Dant Ysgol Dolbadarn, Llanberis, oedd yn fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Eryri. Pob lwc i holl blant yr ardal sy'n cystadlu ym Mae Colwyn.*

*Annwyl Gyfeillion,*

*Ysgrifennaf yn y gobaith y bydd modd inni defnyddio'ch colofn lythyrau i gysylltu gydag ysgrifenyddion Mudiadau a Chymdeithasau yn eich hardal.*

*Mae'n fwriad gan Y Lolfa gyhoeddi Dyddiadur-Digwyddiadur am 1981 i fod ar werth yn Eisteddfod Dyffryn Lliw, ac fel rhan ohono rydym yn awyddus i gynnwys manylion am gymaint ag sy'n bosibl o ddigwyddiadau Cymdeithasol, Diwylliannol, Gwleidyddol a gynhelir yn ystod 1981 — megis Eisteddfodau lleol a Chenedlaethol, Raliau, Cynadleddau, Dathliadau, Canmlwyddiannau, Sioeau, Gwyliau, Campau ac yn y blaen yn ogystal â chyfeiriadau'r ysgrifenyddion os yn bosibl.*

*Nid oes modd inni gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol mewn pryd heb gymorth ysgrifenyddion pob mudiad, a'n gobaith yw y byddant yn ymateb i'r llythyr yma ac yn danfon manylion atom erbyn Mehefin 15 man pellaf.*

*Nid yn unig y gellir rhoi cyhoeddusrwydd rhad felly i'ch digwyddiad, ond ar yr un pryd gellir sicrhau na fydd mudiadau eraill yn trefnu gweithgareddau i wrthdaro â'ch rhai chi yn 1981.*

*Edrychwn ymlaen felly at gyd-weithrediad pobl Cymru gyfan gyda'r fenter uchelgeisiol yma er mwyn inni fedru cael ar ddiwedd y dydd Ddyddiadur pwrpasol, swmpus fydd yn ateb pob galw.*

*Gan ddiolch ichi ymlaen llaw am eich cydweithrediad.*

*Yn gywir iawn,*
*D. Philip Davies,*
*(Rheolwr Marchnata*
*Y Lolfa Cyf.*

## NANT PERIS – Atodiad

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Mai 24 yng Nghaernarfon priodwyd Glenys, merch hynaf Mrs Ann Jones a'r diweddar Harri Wyn Jones, Maes yr haul a Keith Vincent Bingham o Ddeiniolen. Byddant yn gwneud eu cartref yn Siop Newydd, Deiniolen. Ein llongyfarchion a phob bendith i'r ddau i'r dyfodol.

## BETHEL – Atodiad

CLWB FFERMWYR IFANC – Cynhaliwyd cystadleuaeth torri mochyn a'i wneud yn barod i'r rhewgell yn F.M.C. Caernarfon ar Fai 13. Pedwar clwb oedd yn cystadlu sef Ysbyty Ifan, Caernarfon, Llanrwst a Ro-wen. Yn beirniadu oedd Mr Michael Thomas, Turf Square, Caernarfon, a rheolwr F.M.C., sef Mr E. Thomas.

Yn gyntaf drwy Eryri daeth Michael Owen a Helen Jones o glwb Caernarfon (sydd yn cyfarfod yn Neuadd Bethel). Byddent yn cystadlu yn Sioe Frenhinol Cymru ddiwedd mis Gorffennaf yn Llanelwedd.

## ARCHWILIAD TAI PREIFAT

**Dyma lythyr a dderbyniodd y Cynghorydd Pat Larsen oddi wrth Mr H.F. Hartford, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, ddiwedd mis Ebrill.**

ARCHWILIAD TAI ANNEDD.
Gair i'ch hysbysu y cychwynnir ar yr ail flwyddyn o'r archwiliad uchod gyda chynorthwy S.T.E.P. Y bwriad ydyw i'r archwiliad gymeryd lle yn yr ardaloedd canlynol: Deiniolen, Galltyfoel, Dinorwig, Fachwen, Penisarwaun, Brynrefail, Llanberis, Nant Peris, Cwm y Glo, Llanrug.

Rhoddir y wybodaeth yma i chwi rhag i chwi gael ymholiadau oddi wrth y cyhoedd. Os bydd unrhyw dŷ-ddaliwr yn datgan pryder, a fuasech garediced â'i hysbysu, nad oes gorfodaeth i gydymffurfio â'r archwiliad. Mae'n hollol rydd i unrhyw un wrthod mynediad i'r arolygydd.

## BETWS GARMON

NEWID SWYDDI – Dymunir bob hapusrwydd i Eirian Williams, Ty'n y Weirglodd yn ei swydd newydd fel gweinyddes yng Ngheris 'Nursing Home', Treborth; hefyd i Emyr a Carol Jones, Tŷ Coch – y naill yn Chwarel Pen-yr-orsedd a'r llall yn Siop Chwaraeon Gwynedd yng Nghaernarfon.

MARW – Gyda braw i'r ardal bu farw un o'i chymeriadau anwylaf sef Mr Elias Owen, Ystrad Isaf. Bydd colled fawr ar ei ôl gan ei fod yn gymwynaswr parod a chyfrannwr da at bob achosion da. Cydymdeimlir yn ddwys â'i unig fab, Gwilym ac â theulu'r Ystrad i gyd yn eu galar.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs H.O. Jones, Tŷ Coch ar fod yn daid a nain eto. Ganwyd merch fach cyntaf anedig i Dewi a Gwenda, Llanrug ar Fai 19.

CRONFA RHIAN WYN – Cynhaliwyd Noson Goffi a stondin gacennau yn Nhy'n Weirglodd wedi ei drefnu gan Mrs Glenys Williams.

Enillwyr y raffl oedd Mr John Williams, Bryn Rhyd, Mrs Rhian Evans, bron-y-graig, Mrs Jones, Liverpool House, Delyth Williams, Bro Waun, Mrs C. Pritchard, Tref Eilian.

Gwnaed elw o £57 tuag at y gronfa uchod.

## FFARWELIO

Gyda pheth digalondid y derbyniodd Cyfarfod Cyffredinol Eco'r Wyddfa ymddiswyddiad Arwel Jones, y golygydd Erthyglau a Dafydd Evans y golygydd chwaraeon. Teimla'r ddau mai dyma'r amser i gael gwaed newydd yn eu hadrannau hwy o'r papur.

Rhoesant dros bedair blynedd o wasanaeth gwirfoddol a pheth anodd iawn yw mesur cyfraniad mor amhrisiadwy. Nid yw gofod yn caniatau gwerthfawrogiad llawn a theilwng o'u llafur. Mae hynt yr Eco heddiw yn llawer esmwythach diolch i'w hymdrechion a'u dyfal barhad.

Ysgwyddodd Arwel, yn arbennig, yr holl gyfrifoldeb am y papur yn y cyfnod cynnar – casglu'r newyddion, tynnu lluniau, gosod – a'r llafur mwyaf oll – sef bod yn atebol. Collodd rai ffrindiau ond enillodd gannoedd. Drwy ei gydweithrediad â Gwasg Gwynedd daeth yr Eco allan ar amser bob tro. Mae ei enw yn dal yn gyfystyr â'r Eco a bydd yn anodd i gyfranwyr dorri'r arfer o gysylltu ag o.

Bellach gwireddwyd breuddwyd Dafydd ac Arwel o weld yr Eco wedi ei sefydlu'n gadarn fel rhan o fywyd y fro. Mawr yw ein dyled iddynt. Diolch o galon, hogia.


**EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN**

Tachwedd 14 a 15 1980

Testunau yn y siopau neu anfoner amlen stamp at Emlyn Jones, Y.H., 5 Maes Coetmor, Bethesda, Bangor.

**J.M. JONES A'I FAB**

**GWAITH CERRIG BEDDAU**

**DEINIOLEN**

**Ffôn: Y FELINHELI 670124**

**NEWYDD AGOR YN Y DRE'**
**SWYDDFA CYFRIFYDD SIARTREDIG**

**OWAIN BEBB B.A., F.C.A.**

**25 STRYD BANGOR**
**CAERNARFON**

**FFÔN 5196 GYDA'R NOS 2466**

**Hefyd ym MHWLLHELI (3258)**

**Cynrychiolydd lleol i Gymdeithas Adeiladu Caerlŷr/Leicester Building Society.**

# BETHEL

MERCHED Y WAWR – Yng nghyfarfod y mis o Ferched y Wawr cafwyd adroddiad difyr iawn gan Mrs Jones, Awel y Grug, ar ei thaith i'r Unol Daleithiau.

Diolchwyd i Mrs Jones ac i'r swyddogion oedd yn gorffen eu tymor gan Mrs Rita Williams a Siân Hughes a Catherine Jones oedd yn gyfrifol am ddarparu paned.

Yn ddiweddar casglwyd £20.20 gan yr aelodau tuag at gartrefi Eithinog.

Dewiswyd y swyddogion canlynol i weithredu am y flwyddym 1980-81. Llywydd: Madge Williams, Is-lywydd, Mair Jones; Ysgrifennydd, Beti Owen, Is-ysgrifennydd, Elizabeth Jones, Trysorydd, Eirlys Sharpe, Is-drysorydd, Mrs Ffoulkes. Pwyllgor: Mair Price, Mabel Jones, Rita Williams, Gwyneth Williams, Elizabeth Evans, Lynwen Morris.

Nos Fercher, Mehefin 11 bydd Taith Ddirgel yn cychwyn o'r ysgol am 7.15. Bydd y noson yn gorffen gyda chyw iâr a sglodion neu pizza a sglodion. Gofynnir i bawb sydd am fynd ar y daith roi eu henwau i Beti Owen, Madge Williams neu Ceinwen Williams erbyn dydd Mercher, Mehefin 4.

Y DAWNSWYR MORRIS – Mae'r genethod ar hyn o bryd yn brysur yn paratoi ar gyfer Carnifal Bethel, ddiwedd mis Mehefin.

Yn hwyrach yn y flwyddyn, mae'r genethod yn barod wedi cael gwahoddiad i Landegfan a Chaernarfon. Er mwyn helpu i godi arian at y bysiau, bwriedir gwneud taith gerdded fechan nos Fercher, Mehefin 4 yn cychwyn o'r neuadd am hanner awr wedi chwech.

YSGOL SUL CYSEGR – Nos Fawrth, Mai 20 aeth plant ac athrawon Ysgol Sul Cysegr am wibdaith. Cafwyd te yn y 'Star Motel', Gaerwen ac yna ymlaen i Gaergybi.

Mwynhawyd y noson yn fawr iawn gan y plant ac mae pob diolch i Mr Goronwy Jones, Glan Gors (Arolygwr yr ysgol Sul) a Mrs Diane Roberts, Bro Rhos am drefnu'r trip.

Y CARNIFAL – Bydd y Carnifal eto eleni yn parhau am wythnos gan gychwyn gyda Chymanfa Ganu yng Nghapel Cysegr nos Sul, Mehefin 22 am 7 o'r gloch.

Bydd y gweithgareddau am weddill yr wythnos fel a ganlyn: Nos Lun: Disgo i'r plant yn y Neuadd am 6.30. Nos Fawrth – Helfa Drysor yn cychwyn o'r Neuadd tua 7 o'r gloch. Nos Fercher – Chwaraeon yng nghae Bro Rhos am 6.30. Nos Iau – Rowndiau terfynol y gystadleuaeth bêl-droed 5 bob ochr yn y cae chwarae am 6.30. Nos Wener: Noson Lawen yn y Neuadd am 7.30. Dydd Sadwrn – Diwrnod y Carnifal gyda'r orymdaith yn cychwyn o Bro Rhos am 1 o'r gloch yn cael eu harwain gan Seindorf Arian Deiniolen a Dawnswyr Morris Bethel. Yn yr orymdaith hefyd bydd Jazz Band Caernarfon.

Beirniaid y cystadlaethau gwisg ffansi eleni fydd Mr Ken Williams, MBE, (Warden Gwarchodfa Natur Penrhos, Caergybi), Mr Arwel Jones, Llanrug (Hogia'r Wyddfa) a Mrs Carys Hughes, Pentir (Ymwelydd Iechyd). Bydd Shirley Ann Turner yn cael ei choroni gan y Frenhines Diane yn ystod y Carnifal.

Gobeithir y ceir wythnos o ŵyl lwyddiannus eto eleni, yn dilyn llwyddiant y llynedd a byddai'r pwyllgor yn falch iawn o gael enwau gwirfoddolwyr fydd yn folon helpu fel stiwardiaid yn ystod yr wythnos.

LLONGYFARCHIADAU – I Richard a Mary Lloyd Jones, Y Ddôl ar enedigaeth bachgen, eu babi cyntaf a hefyd i Mr a Mrs Vize, Cefn Rhos ar enedigaeth merch fach.

I Harry Hughes, y Rhyl, mab Mrs Lydia Owen, Corra Linn, ar gael dyrchafiad yn Station Officer yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

I Osgar Evans, Tan y Cae, ar gael ei ddewis yn aelod o dîm pysgota Cymru oedd yn y gystadleuaeth ryngwladol yn Nhrawsfynydd ddydd Sadwrn, Mai 17. Ar ddiwrnod pysgota anobeithiol llwyddodd Cymru i ddod yn ail i Iwerddon gyda'r Alban yn drydydd a Lloegr yn bedwerydd.

I Miss Eleri Owen, 3 Glan Llyn, ar gael ei phen-blwydd yn 21 oed yn ystod y mis, ac i Siôn W. Jones, 26 Bro Rhos ar gael ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fai 20.

I blant ysgolion Sul y Cysegr a Bethel ar eu llwyddiant yn eu Cymanfaoedd.

YR YSGOL FEITHRIN – Ddydd Iau, Mai 15, fel rhan o Wythnos Agored y Mudiad Ysgolion Meithrin trefnwyd bore agored yn ysgol Feithrin Bethel. Cafwyd bore llwyddiannus iawn a gwnaed elw o £60 gyda Mrs Bowen Rees a Mrs Gwen Owen yn ennill y ddwy raffl.

Mae'r Ysgol Feithrin yn chwilio am athrawes a chynorthwyes i'r grŵp erbyn Medi nesaf a gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb roi eu henwau i Mrs Ann Parry, Waen Deg cyn gynted ag sydd bosibl. Byddai Ann Parry hefyd yn falch o dderbyn enwau plant fydd yn 2 a hanner fis Medi ac sydd yn awyddus i ddod i'r grŵp.

YR URDD – Bu aelodau'r Urdd yn yr Eisteddfod yn Abergele ddydd Mercher diwethaf. Bu i bawb fwynhau eu hunain a diolchir i Mrs Fanny Owen am drefnu'r bws.

AR WERTH – Beic dynes mewn cyflwr da – Miss Owen, 16 Bro Rhos.



*Dyma lun o blant o Bethel a'r Cylch sydd yn ddisgyblion piano i Mrs Heulwen Williams. Cawsant y wefr o gystadlu yng Ngŵyl Gerdd Caer ddydd Gwener, Mai 23 a chael cryn lwyddiant mewn cystadlaethau o safon uchel. Y Rhes ôl o'r chwith i'r dde: Phillippa Jones; Rhian Davies, Loretta Owen, Manon Williams; Mrs Heulwen William s (athrawes)*

*Rhes ganol o'r chwith i'r dde: Rhian Parry, Mari Owen, Jenifer Jones, Sharon O Connor, Jane Thomas, Sharon Vaughan Williams.*

*Y rhes glaen: Meinir Williams, Ceinwen Parry, Helen Jones, Margaret Jones, Angharad Price.*

# BRYNREFAIL

YR ARHOLIAD SIROL – Bu tair o aelodau Ysgol Sul Brynrefail yn llwyddiannus yn Arholiad Sirol Henaduriaeth Arfon. Llongyfarchwn Einir Gwyn, Min-y-nant, Nerys Ann Williams, Llwyncoed a Glenda Walters, 3 Minffordd ar eu llwyddiant yn y Dosbarth i rai dan 9 oed. Gwobrwywyd hwy am eu gwaith mewn cyfarfod o'r Henaduriaeth a gynhaliwyd yn Engedi, Caernarfon ar Fai 8.

Y GYMANFA – Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Deiniolen eleni yng nghapel Cefnywaun ar Fai 4. Estynnwn ein llongyfarchiadau i'r canlynol o aelodau Ysgol Sul Brynrefail ar eu llwyddiant ym Meysydd yr Arholiad Llafar: Dan 4 oed, Marian Jones. Dan 5 oed, Owain Gwyn. Dan 8 oed, Paula Walters a Catrin Gwyn. Dan 9 oed, Caron Jones, Einir Gwyn a Glenda Walters. Dan 10 oed, Jacqueline Walters a Nerys Ann Williams, Dan 11 oes, Alwen Jane Jones a Meinir Wyn Jones. Dan 50 oed, Mrs Shirley Roberts, Miss Lowri Prys Roberts a Mrs Ifanwy Jones. Dros 50 oed, Miss Annie May Williams, Mr Richard Wyn Evans. Gwobrwywyd hefyd bedwar parti cyd-adrodd yn y dosbarthiadau dan 9 oed, dan 12 oed, dan a thros 50 oed.

SIOE GEFFYLAU – Mewn man sydd yn enwog iawn am ei gysylltiad â cheffylau gwedd, sef Llys, Brynrefail (Maes Carafanau Snowdon View), daeth nifer o geffylau a merlod o bob llun a lliw i gystadlu mewn gornest neidio. 'Roedd yno hyd yn oed un ceffyl wedi ei stwffio – sef prif wobr y raffl a enillwyd gan Mrs Rosemary Davies o Benisarwaun.

Trefnwyd y dydd er budd clwb marchogaeth Prifysgol Bangor a beirniadwyd y cystadlaethau neidio gan Mr Llystyn Griffiths a Mr Hugh Salisbury. Trefnwyd y dydd yn Llys trwy ganiatâd caredig Mr a Mrs Haughton. Cafwyd 11 dosbarth yn cystadlu gyda'r canlyniadau:

12.2 h.h. 1. Adnrea Lowe, 2. Ceinwen Wilkinson.
2. 13.2 h.h., s. Sian Thomas, 2. AndreaLowe, 3. Janet Pritchard.
3. Pony Scurry', 1. Sian Thomas, 2. Susie James, 3. Janet Pritchard
4. 14.2 h.h., a. Susie James, 2. Sian Thomas, 3. Andrea Lowe.
5. Agored, 1. Sian Thomas, 2. Sally Harris, 3. Susie James.
6. Dysgwyr. 1. Helen Williams, 2. Joanne Murphy, 3. Janet Pritchard.7. Gambler's Stakes, 1. Susie James, 2. Sian Thomas, 3. Sian Thomas.
8. Dosbarth mamau, 1. Renee Thomas, 2. Melody Smith, 3. Kay King.
9. Novice Horse, 1. Caroline Pollard, 2. Caroline Pollard, 3. Sarah Whavell.
10. Open Horse, 1. Llystyn Griffiths, 2. Caroline Pollard, cydradd 3ydd, Sarah Whavell a Melody Smith.
11. Gambler's Stakes, 1. Llystyn Griffiths, 2. Caroline Pritchard, 3. Sarah Whavell. 4. Sue Wyn Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn Nhŷ Glas ar Mai 15, trafodwyd penderfyniadau ar gyfer y gynhadledd sydd i'w chynnal yn Llundain ar Fehefin 15. Cafwyd arweiniad a chymorth yn y gwaith gan Mrs Wigley a Mrs Thomas ac fe ddewiswyd Mrs Gwyneth Jones, 12 Tremeilian i gynrychioli Brynrefail yn y gynhadledd. Paratowyd y te gan Jennie Williams a Jennie Hughes. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs H.I. Jones ac fe'i enillwyd gan Mrs Hughes, Bryn Garth.

CLWB MAMAU – Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, daeth Mrs Barbara Dodsworth atom i drafod ei gwaith fel trefnydd Gogledd Cymru a Swyddog Lles i Sefydliad Spinabifida.

Rhoddwyd anrheg i mis gan Moira Ellis ac fe'i enillwyd gan Carol Houston. Paratowyd y te gan Pat Jones a Carol Houston.

CLWB PEDWAR UGAIN – Enillwyr mis Ebrill: Ebrill 4, 1. Mary Roberts, 2. Jackie Jones, 3. Ken Jones. Ebrill 11: 1. Moira Ellis, 2. Derek Davies, 3. Mrs Hasson. Ebrill 18: 1. Pete Wellsby, 2. Mrs H.J. Jones, 3. Pat Mowll. Ebrill 35: 1. Carl Hasson, 2. Bertie Roberts, 3. Pat Jones.

GARTREF O'R YSBYTY – Croeso'n ôl i Maldwyn Jones, 1 Tai Orwig, wedi ei gyfnod yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunwn iddo lwyr wellhad.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Mewn cyfarfod o Bwyllgor Lleol y Gymdeithas uchod a gynhaliwyd nos Wener, Mai 16, penderfynwyd gwneud ymdrech arbennig i godi arian at gyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd ym 1988.

Bydd dwy ffurf i'r ymdrech yn digwydd nos Wener, 13 Mehefin, pryd y cynhelir 'Encil Ddistaw' (am awr), yn cychwyn am 7.00pm yng nghapel Bosra, Penisarwaun; Tabernacl, Deiniolen; St. Mair, Dinorwig, a Brynrefail (M.C.), Brynrefail. Ar y noson honno hefyd bydd 'Taith Gerdded' yn cychwyn o Brynrefail (Llythyrdy), a Phenisarwaun (Siop Gron) am 6.00pm, Deiniolen (Llyfrgell) am 6.30pm, a Dinorwig (Y Ganolfan) am 7.00pm, gan deithio i lawr Y Fachwen yn ôl i'r gwahanol bentrefi. Anfonwyd cyflenwad o ffurflenni pwrpasol i Ysgrifenyddion eglwysi'r cylch ar gyfer y sawl sydd am encilio neu gerdded.

Dymuna'r Pwyllgor trwy golofnau'r 'Eco' werthfawrogi cefnogaeth parhaol yr ardalwyr i'w gwaith, a'u gwahodd i amlygu eu haelioni arferol trwy gymryd rhan bersonol yn yr encilio neu'r cerdded, neu drwy noddi personau sy'n bwriadu gwneud hynny.

# CEUNANT

YN YR YSBYTY – Drwg gennym ddeall bod Mrs Guy, Bryn Tirion yn ysbyty Môn ac Arfon. Eiddunwn iddi adferiad llwyr a buan.

MARWOLAETH – Bu farw Mr Butterfield, Bryn Awelon ddydd Sul, Mai 18 yn Ysbyty Môn ac Arfon. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor, Mai 21. Cydymdeimlwn â Mrs Butterfield a'r teulu oll.

LLONGYFARCHIADAU – I Einir a Gwenno Parri, Morwel, am eu llwyddiant yn arholiad llafar y Gymanfa Ysgolion M.C. Hefyd i Gwenno ar ennill marciau uchel yn y ddwy arholiad ysgrifenedig.


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**

# DEINIOLEN

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Mewn cyfarfod o Bwyllgor Lleol y Gymdeithas uchod a gynhaliwyd nos Wener, Mai 16, penderfynwyd gwneud ymdrech arbennig i godi arian at gyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd ym 1988.

Bydd dwy ffurf i'r ymdrech yn cymryd lle ar nos Wener, 13 Mehefin, pryd y cynhelir 'Encil Ddistaw' (am awr), yn cychwyn am 7.00pm yng nghapel Bosra, Penisarwaun; Tabernacl, Deiniolen; St. Mair, Dinorwig, a Brynrefail (M.C.), Brynrefail. Ar y noson honno hefyd bydd 'Taith Gerdded' yn cychwyn o Brynrefail (Llythyrdy), a Phenisarwaun (Siop Gron) am 6.00pm, Deiniolen (Llyfrgell) am 6.30pm, a Dinorwig (Y Ganolfan) am 7.00pm, gan deithio i lawr Y Fachwen yn ôl i'r gwahanol bentrefi. Anfonwyd cyflenwad o ffurflenni pwrpasol i Ysgrifenyddion eglwysi'r cylch ar gyfer y sawl sydd am encilio neu gerdded.

Dymuna'r Pwyllgor trwy golofnau'r 'Eco' werthfawrogi cefnogaeth parhaol yr ardalwyr i'w gwaith, a'u gwahodd i amlygu eu haelioni arferol trwy gymryd rhan bersonol yn yr encilio/cerdded, neu drwy noddi personau sy'n bwriadu gwneud hynny.

TEYRNGED GAN GYFAILL – Drwg gennym glywed am waeledd Mrs Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol, priod Emyr Pritchard sydd yn organydd a blaenor yn Eglwys Disgwylfa, a'r ddau wedi bod yn weithgar iawn yno hyd nes i iechyd Mrs Pritchard dorri i lawr. Clywais ei bod yn cwyno ers yn agos i ddwy flynedd yn awr. Clywais hefyd iddi fod yn aros yn Ysbyty Môn ac Arfon cyn y Nadolig ac ar hyn o bryd yn mynychy Ysbyty Gobowen. Mae'n chwith gweld Mrs Pritchard wrth ei ffon, a hithau bob amser mor chwim ar ei throed a siriol bob amser. Mae ei llaw wedi bod yn agored iawn i lawer mudiad yn yr ardal, a diolch iddi am hynny. Mae'r golled yn fawr iawn yn Nisgwylfa, lle yr oedd bob amser yn weithgar iawn. A gaf fi ddweud y cwpled hwn cyn terfynu:

**A 'maglau wedi eu torri**
**A'm traed yn gwbl rydd**

a gobeithio mai felly y bydd i chwithau, Mrs Pritchard cyn hir. Duw a'ch bendithio a brysiwch fendio.

LLONGYFARCHIADAU – i Guto Orwig Jones, Catherine Lewis, Siân a Donna Jones, Llion, Berwyn, Arwyn Roberts, Llanrug ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Llafaredig Dosbarth Arfon.

Maent wedi derbyn seren aur am eu gwaith da. Disgyblion ydynt yn Ysgol Sul Libanus (B) Clwt-y-bont.

LLWYDDIANT – Dymunwn unwaith eto longyfarch John Evans sef Johnny'r Iard ar ei fuddugoliaeth o ennill y gadair yn Eisteddfod Mynydd y Cilgwyn ddechrau'r mis hwn.

DIOLCH – Dymunwn fel aelodau a phwyllgor Seindorf Deiniolen ddatgan ein diolch am bob rhodd, gweithred a chefnogaeth a'n galluogodd i gael Noson Goffi mor llwyddiannus ar Fai 9. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mrs Mary H. Morris ddiolch i Elfyn, Joyce, Eurwyn a'r plant, y teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a gafodd pan oedd yn drigain oed. Diolch i bawb.

CLWB YR HENOED – Cynhelir Noson Goffi gan Glwb yr Henoed yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener, Mehefin 6 am 7 o'r gloch.

MARW – Yn Ysbyty Llandudno ar Fai 8 bu farw Miss Eunice Williams, Tai'r Ffynnon, Clwt-y-bont.

Mai 17 yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor bu farw Mr Bobby Woodcock, 15 Maes Gwylfa, Clwt-y-bont.

Mai 18, trwy ddamwain, bu farw Miss E. Rowlands, 77 Pendalar, Llanfairfechan, gynt o Dai Caradog. Cydymdeimlwn â'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

PLAID CYMRU – Enillwyr y raffl wanwyn: 1. Cloc radio – Mrs Meira Jones, 1 Pentre Helen; 2. Pedwar Addurn o Waith Llechen Lleol – Mr Gwilym Thomas, 1 Stryd Newydd, Bethel; 3. £10 – Mrs Eirlys Gibson, 17 Hafod Olau.

Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn Ystafell y Seindorf nos Fawrth, Mai 20, pryd y lluniwyd cynigion i'w danfon i Gynhadledd Arfon fis nesaf. Cynhelir taith ddirgel ar Fehefin 20. Gofynnir i aelodau a'u ffrindiau roi eu henwau i Mr Gwyn Parry yn ddi-oed. Enillwyr Clwb Cant mis Mai: £15, rhif 11 – Mr Eifion Hughes, 1 Pentre Helen; £10, rhif 109 – Miss Pat Williams, 37 Rhydfadog.

Ymddiheurir i Mrs M. Thomas, Berthen Gron, Clwt-y-bont am beidio ei henwi fel enillydd mis Ebrill.

DYMUNIADAU GORAU – i bawb sydd yn wael yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi.

CRONFA YMCHWIL Y GALON – Gwnaethpwyd casgliad yn ystod mis Ebrill, tuag at gronfa Ymchwil y Galon. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r tair gwraig a fu'n casglu am eu hymdrechion llwyddiannus mewn amser byr. Casglwyd £40.88

DIOLCH – Dymuna John Gwyn ac Einir Ann Williams, 21 Pentre Helen ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur geni eu mab bychan, Elfed John.

GYRFA CHWIST – Yr enillwyr yn yr Yrfa Chwist a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Ysgol Gwaun Gynfi oedd: Merched – 1. M. Bailey; 2. Mrs E. Lloyd Jones; 3. Glenys Owen. Dynion 1. Paul Thomas; 2. E. Morgan; 3. R.G. Rowlands. Enillwyd y raffl oedd: 1. Buddug Hughes; 2. Mrs E. Morris, Cwm y Glo; 3. Mrs A. Hughes, Cwm y Glo. Enillydd y gacen oedd Mrs E.H. Jones, Bwbi. Bwbi – Sian Williams ac O. Jones. Hanner Amser, Merched: Mrs E. Lloyd Jones. Dynion: Mr B. Griffiths. 'Roedd y noson yng ngofal Mr Bryngwyn Griffiths gyda'r elw yn mynd tuag at Ganolfan Gymdeithasol y pentref.

CEFNYWAUN-DISGWYLFA – Pan gyfarfu Henaduriaeth Arfon yng nghapel Engedi Caernarfon ar 8 Mai, gwobrwywyd 10 o blant yr ofalaeth fu'n llwyddiannus yn yr Arholiad Sirol. Dan 9 oed – Dyfrig (92); Tegid (91); Della (87); Ian Gruffydd (84); Gwyn (80). Dan 11 oed – Helen (86); Ian Prys (77). Dan 14 oed – Iwan (90); Siân (83); Aeron (77).

Yn yr un cyfarfod croesawyd Mrs A. Rees Owen, a enillodd Dystysgrif Thomas Gee am ffyddlondeb i'r Ysgol Sul.

Estynnir llongyfarchiadau iddynt i gyd.

LLONGYFARCHIADAU – Dymuniadau gorau i Percy a Jacqueline (nee Wardle) ar achlysur eu priodas yn ddiweddar yn nghapel Ebenezer. Dymuna'r ddau ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da. Diolch yn fawr iawn.

# RAS YR WYDDFA



*Mrs R. Lloyd, Hostel Pen y Pas yn cyflwyno Tarian Ieuenctid i Gari. Noddwyd y Darian gan Gymdeithas Parc Cendlaethol Eryri.*

**Cynhelir pumed Ras yr Wyddfa, dydd Sadwrn, Gorffennaf 19 am 3.30 o'r gloch, sef diwrnod Carnifal Llanberis.**

**Gellir cael ffurflen gais o siopau Joe Brown a Gwynedd Sports Llanberis ac fe fydd yn orfodol i bob cais ddod i law erbyn Mehefin 24.**

**Disgwylir y bydd tua 300 yn cystadlu, yn cynnwys rhedwyr tramor gan fod y Ras bellach wedi ei chofrestru gyda 'Pencampwriaeth Rasus Mynyddoedd Ewrop'.**

CLWB RHEDWYR ERYRI

Enillwyd pencampwriaeth hŷn y Clwb gan Malcolm Jones o Dremadog gyda Gari Ellis o Gaernarfon yn ennill tarian yr ieuenctid. Llwyddodd Gari i ennill 9 ras yn ystod 1979 yn cynnwys adran iau Ras yr Wyddfa. Yn ddiweddar fe lwyddodd i gipio pencampwriaeth ieuenctid rhedeg traws gwlad Gogledd Cymru. Mae Gari yn nai i Mrs M. Ellis, 5 Rhes Fictoria, Llanberis ac i'r diweddar Mr John Raymond Ellis.


**E.W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI





**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS
Dosberthir drwy'r fro
*HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL*

## CYFARFOD ATHLETAU



*Ceris Jones (Victor), Melamie Sellars (Vitrix)*



*PERFFORMWYR GORAU: Cefn o'r chwith: Gareth Hughes, Gwynfor Williams, Michael Roberts. Blaen: Susan Ward, Angela Williams, Jacqueline Hobby.*

Elidir – 442 , Gwyrfai – 324 , Eilian – 309, Eryri – 184.

Victor Ludorum – 1. Ceris Jones, Llanrug, 31 pt., 2. Gwynfor Williams, Penisarwaun, 24 pt., 3. Kevin Owen, Cwm y Glo, 23 pt.

Victrix Ludorum – 1. Melanie Sellars, Llanberis, 27 pt., 2. Margaret Roberts, Ceunant, 25 pt., 3. Eurgain Roberts, Penisarwaun, 18 pt.

Perfformiad Gorau ym Mhob Adran: Bechgyn Hŷn – Gwynfor Williams, Penisarwaun – torri record taflu pwysau. Bechgyn Iau – Gareth Hughes, Dinorwig, – Torri record 1500m. Bechgyn Ieuaf – Michael Roberts, Cwm y Glo, Torri record taflu pwysau. Genethod Hŷn – Susan Ward, Llanrug, – Torri record taflu pwysau a chyntaf yn y ddisgen. Jacqueline Hobby, Cwm y Glo, cyntaf mewn pedair cystadleuaeth.


Elidir yn fuddugol eleni, felly a hwy hefyd oedd y tŷ enillodd fwyaf o farciau dros holl weithgareddau'r flwyddyn. Y marciau terfynol am y Gwpan Tŷ oedd : Elidir 867, Gwyrfai 824 , Eilian – 706, Eryri – 539 .

ATHLETAU YSGOLION ARFON

Dyma ganlyniadau'r ysgol:

Margaret Roberts – 1af 400m – Genethod dan 17 a 1af Picell. Susab Bailey – 1af Picell, genethod iau. Angela Williams 1af Disgen genethod iau. Yvonne Hughes, 2il Pwysau genethod dan 17

Susan Ward 2il Disgen genethod dan 17 a 3ydd Picell genethod dan 17. Ann Jones, 2il pwysau genethod hŷn. Wendy Jones, 2il 100m genethod iaua 3ydd 200m genethod iau. Delyth Roberts 3ydd Picell genethod iau. Genethod dan 17 2il yn y Ras Gyfnewid. M. Coombes 1af Niad Driphlyg Bechgyn Iau. Iestyn Jones 1af Naid Hir bechgyn Iau. Matthew Antoine 1af Disgen Bechgyn Iau. Gwynfor Williams 1af Disgen Bechgyn Hyn a 3ydd Pwysau bechgyn h6n. Michael Roberts, 2il Pwysau Bechgyn Iau. Meirion Jones 2il Naid Driphlyg Bechgyn Iau. Keith Locke 3ydd Naid Uchel Bechgyn Iau. Steven Owen, 3ydd Picell Bechgyn Iau. Steven Riley 3ydd 1500m Bechgyn Ieuengaf. Huw Jones 3ydd Naid Hir Bechgyn Ieuengaf.







# OGABAN Y

## LEIN BACH

Gan Mrs M.



Mae llawer o sôn wedi bod am chwarel fawr Llanberis ond erbyn heddiw, mae'r 'Hydro', yn prysur fynd â'i lle.

Gweithiwyd y chwarel mewn ponciau, rhai yn gul iawn. Rhennid i ddwy ran, tua deg ar hugain o bonciau ymhob rhan. Mae gan y diweddar J.R. Morris tua 60 o enwau'r ponciau. 'Roedd chwarel Llanberis, neu Ddinorwig yn nodedig am ei llechi – "Cambria Slate", cerrig caled, a chariwyd y rwbel ar 'wagen llwythwr', a'i daflu i lawr ochr y graig i lyn Peris.

Roedd dau i ddeuddeg o griw mewn bargen, ond y rhif amlaf oedd pedwar, dibynna hyn ar y fargen a gaent. Yn y dechrau, nid oes amheuaeth mai mewn cwch ar hyd llyn Padarn y cludid y llechi, yna gyda 'Panniers' a 'Packhorses', pob llwyth yn cynnwys tua 64 o lechi. Buasai yn ddrwg pe buasai y llyn yn rhewi drosodd, fel y gwnaeth ddwywaith neu dair. 'Roedd y ffordd yma o gario yn anhwylus a pherygl, heblaw yn gostus iawn. Ym 1788, yr oedd y gost o gael y llechi o'r chwarel i'r Felinheli yn fwy nag oedd ei hanfon o'r Cei gyda llong i Lerpwl.

'Roedd dywediad fod ffordd yn mynd yn uchel iawn trwy Glwt-y-bont, ac arni ddwy 'inclên' – Craig Lwyd a'r Garth, gwaith anodd iawn i'r ceffylau a'u llwyth. Yn y diwedd gwnaed rheilffordd – i gychwyn, ac i redeg yn is na'r ffordd, gyda glan llyn Padarn, a thrwy gwm afon Rhythallt, tua 7 milltir o hyd. Gosodwyd y gyntaf yn niwedd y ddeunawfed ganrif hyd 1824, yr ail lein o hynny hyd 1848, ac yna un arall.

Wedi cael y rheilffordd 'roedd raid wrth beiriannau; yn gyntaf cafwyd y 'Nelocipedes,' neu geir gwylltion ac o'r rhain, 'roedd dau fath – ' car cicio' a'r 'car troi' – y rhain yn eiddo criw o'r chwarelwyr, yn cario tua 16 o griw *charabanc fashion'*. Weithiau caed cymaint â 25 ar y car. Pan fyddai'r gwynt o'u plaid, trafaelient tua 40 milltir yr awr. 'Roedd tua 52 o'r cerbydau hyn ar un adeg, ac enw ar bob un megis 'Aston', 'Y Cacwn' etc. Mae sôn am lawer o fân-ddamweiniau, un bur ddrwg, y car yn mynd oddi ar y lein, a throi i'r llyn, a dau ŵr o Lanrug yn boddi. Defnyddiwyd y ceir hyn hyd 1895 yna cafwyd y trên chwarel, ond defnyddiwyd un car gwyllt hyd 1950 i gario arfau trwsio i weithwyr y lein.

Mis Awst 1895 daeth y trên gyntaf, gyda 15 o gerbydau yn cario 60 o chwarelwyr; caed llythyren ar bob cerbyd a phob gweithiwr ei le arbennig ynddi. Eisteddent gefn wrth gefn pump ymhob sêt, a chaed golau gan ddwy lamp olew ond er hyn, 'roedd yn dywyll iawn yn y conglau, ac yn aml ceid y dynion yn cysgu ar y daith – effaith codi bore. 'Roedd i bob chwarelwr ei 'diced' neu 'tally copr', rhif y cerbyd a'r sêl arno. Pan yn ei llawn rym 'rodd 20 o gerbydau, a 22 ddydd Sadwrn a bore Llun, hyn oherwydd fod dynion Sir Fôn, yn mynd adref dros y Sul, a dychwelyd fore Llun, gyda'u 'walet wen', ar eu cefn yn cario digon o fwyd am yr wythnos, i aros yn y 'barics' – lle gwael iawn i aros, digon o gwmni yno – llygod mawr a 'chwain', pa le mae'r chwain erbyn heddiw?

Caed cymdeithas glos iawn yn y chwarel, na chaed ei thebyg yn unlle arall, ac wrth gwrs, beth am 'hiwmor y chwarelwr'. Ar y daith, 'roedd gwahanol 'stesions' a 'halts'. Cychwyn o Penscoins,

# Y CHWAREL

## Y CHWAREL

WILLIAMS, Bethel



Cefn Gwyn (H), Bethel, Pensarn (H), Pontrhythallt y fwyaf o'r stesions, Penllyn, a'r Gilfach Ddu. Y tâl o'r Felinheli oedd 2 6 y mis, ac yna dibynna ar y ffordd, gan mai 1 3 a dalai dynion Penllyn. Telid 1 - gan ŵyr Sir Fôn, sef tâl am drafaelio ôl a blaen, ddiwedd yr wythnos.

'Roedd sied ym mhob stesion yn cadw'r cerbydau – Penscoins Bethel (4), Pontrhythallt (7) a Phenllyn (4). 'Roedd raid tynnu'r rhain allan bob bore, a'i cadw bob nos, un dyn wedi ei benodi fel fforman. Yn yr haf a'r gwanwyn cychwynai'r trên am 6 o'r gloch y bore, ac ar fore tawel clywid ei chwiban yn glir, a chadwai ei hamser yn dda. Hefyd 'roedd 'y garreg felyn', a welid bob diwrnod tâl yn cario'r 'high nobs', i dalu i'r chwarelwyr druain am eu gwaith caled (£1-13-9 yn 1936). Deuai teulu'r Faenol ar eu tro, a rhai o'r teulu Brenhinol, un o'r rhai olaf oedd Y Dywysoges Margaret a'i phriod yn 1962.

Nid oedd signals o gwbl ar y rheilffordd, dim ond arwyddion a'r gair whistle arno.

Cafwyd amryw o ddamweiniau yn y chwarel yn ystod y blynyddoedd – bach a mawr, llawer un angheuol, dau neu dri yn colli eu bywydau – 'cwymp' y graig yn gollwng yn ddirybudd. Ni weithid mwy y diwrnod hwnnw, yn y rhan honno o'r chwarel; dyma ffordd y chwarelwyr o ddangos parch i'r marw, a'r teuluoedd trallodus.

Nid oes sôn ond unwaith i'r trên fethu cyrraedd pen ei thaith – mis Chwefror 1929. Gorchuddiwyd hi gan eira tu isaf i Fethel, dim ohoni yn y golwg, ond yr ager yn codi. Cerddodd pawb adref i'r Felinheli, a chafwyd y trên yn rhydd drannoeth.

Cafwyd amryw o ddamweiniau bach a mawr ar y lein hefyd. Y gyntaf y ceir sôn amdani yn Ebrill 1899, pryd y lladdwyd ceffyl yn y groes ger Bethel. Trachefn lladdwyd ceffyl ger Penllyn, a gwnaed pennill ar yr achlysur

**'The quarry engine came by force**
**And at Penllyn, it struck a horse**
**The horse belonged to David Postman**
**And the bill was sent to Mr Brinkman.'**

Bu amryw o ddamweiniau eraill i anifeiliaid, lladdwyd buwch ger y felin lechi, lladdwyd hwch, a dywedir mai yr un injian oedd ymhob damwain bron, a galwyd hi y 'lladdwr'.

Ond y ddamwain fawr a ddigwyddodd ger Bethel fis Ionawr 1926 – 54 o flynyddoedd yn ôl – lladd dau ŵr o Gaernarfon – Thomas Williams 48 oed, a William David Williams, 19 oed (mab Jim Trefor, a chwaraeai 'referee' i'r North Wales Football.) 'Roeddynt mewn lori gario paraffin a aeth i wrthdrawiad a'r trên, wedi trafaelio llawer ôl a blaen dros y groesffordd – ond y dydd hwn – daeth yr angau.

Gwagio fu hanes trên y gweithwyr o'r naill flwyddyn i'r llall. Daeth diwrnod olaf trên y gweithwyr fis Tachwedd 1947, ond daliwyd i gario'r llechi gyda'r 'run' hyd Hydref 27, 1961.

Mae'n sicr fod trafodaeth wedi bod – 'beth i'w wneud â'r lein – dechreuwyd ei chodi yn 1962 tan 1963.

Mis Gorffennaf 1969 taflwyd 300 o chwarelwyr allan o waith ac yn Awst 1969 caewyd yn gyfan gwbl. Gwerthwyd yr offer ym 1969, rhai prisiau da, a gwerthwyd y chwarel mewn ocsiwn gyhoeddus yng Nghaernarfon, Mehefin 1970, bron i ddeng mlynedd yn ôl. 'Roedd y cynigion yn ara' iawn, ond gwerthwyd i McAlpine a'i feibion am bedair mil ar bymtheg.

Dywedir y llosgwyd yr holl gerbydau, ond y garej felyn. Heddiw, mae lein arall ar hyd glan llyn Padarn, – y trên bach pleserus, mae Amgueddfa'r Gilfach Ddu, gydag amryw bethau, gan gynnwys 'Yr Olwyn Fawr', ac mae'r Hydro yn prysur ddod i ben, heb lawer o ddamweiniau hyd yma. Eto dywedir nad hon yw'r gyntaf yn chwarel fawr Llanberis – na, 'roedd un fach yn Hafod Owen tua 1896.

Beth fydd y newid mewn deng mlynedd arall? Amser a ddengys!

## YSGOL BRYNREFAIL

### CRICED

Llongyfarchiadau i Euryn Owen, Deiniolen, am gael ei ddewis i gael treial i dîm criced Ysgolion Cymru.

Mae Euryn a Dylan Williams o Lanrug wedi eu dewis i dîm criced Ysgolion Gwynedd, dan 18 oed. Mae Dafydd John Pritchard, Nant Peris, Ian Pritchard, Llanberis a James Spry, Llanberis, wedi eu dewis i dîm criced Ysgolion Gwynedd dan 16 oed, ac mae Dilwyn Morris o Gwm y Glo yn nhîm criced dan 16 Ysgolion Arfon.

Gwae tîm Morgannwg pan fydd y rhain yn ddynion!!

### SGIO

Ar ddechrau'r mis cafodd Timothy Lloyd, Pen-y-pas, a Rubina McCann, Ceunant, fedalau aur ym Mhontypwl. Cystadleuaeth agored i sgiwyr dan 14 oedd yr achlysur – da iawn chi. Yn ystod y mis hefyd, 'roedd 12 o blant yr ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth sgio Ysgolion Cymru ym Mhontypŵl.

### GYMNASTEG

Heddiw yr oedd tîm gymnasteg yr ysgol yn rhoi dau berfformiad ym mhrif gylch Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru.

### YMGYRCH LYFRAU

Gwerthwyd 584 o lyfrau yn yr ysgol eleni, gyda dosbarth 1P yn ennill y Plac am werthu'r mwyaf.

Yr enillwyr unigol oedd : Kathy Williams, Brynrefail – 51 Llyfr. Gwobr £2. Gerinat Jones, Llanberis – 46 llyfr, Gwobr £1. Carys Ll. Jones, Ceunant – 37 llyfr. Gwobr 50c.

### CANU BENDIGEDIG

Yn ystod y mis aeth Mrs Carys Jones a pharti cân ysgafn, adran Urdd yr ysgol, i dorri tâp yn Stiwdio Sain, Llandwrog. Gobeithio y byddwch yn llwyddiannus yn y dyfodol agos gennod – y grŵp ysgol cyntaf i wneud 'miliwn' efallai? Cofiwch amdanaf!!

Llongyfarchiadau, hefyd i Siân Gibson, Deiniolen, am ennill y 3edd wobr ar yr Unawd i ferched dan 15 yn Eisteddfod Môn.

### GWEITHGAREDDAU'R URDD

Yn ystod y mis daeth grŵp o adran Ysgol Bodedern, i'r ysgol i gymryd rhan mewn trafodaeth gydag aelodau adran yr ysgol. Ar ddiwedd y prynhawn, cafwyd cwis cyfeillgar i orffen ymweliad hapus.

Aeth aelodau'r adran, hefyd, i ffair yr Urdd ym Mhortmeirion, ('Pen Llanw) yng nghwmni Mrs Mary Hughes, Mrs Mari Williams, a Miss Elizabeth Williams.

### CLWB MYNYDDA'R YSGOL

Dydd Sadwrn, Mai 10 aeth Mr Bonner Davies a Mrs Noreen Manning a'r aelodau ar daith gerdded ar hyd 'Pedol yr Wyddfa'.


### THEATR GWYNEDD

Bu tri thrip i'r theatr yn ystod y mis aeth heibio. Aeth Mrs N. Manning a Mrs M. Hughes i weld *'Midsummer Night's Dream'* gyda phlant dosbarthiadau 1 a 2. Bu'r ddwy hefyd yn gweld y ffilm enwog *Lord of the Flies* gyda dosbarthiadau 3, 4 a 5. Yn olaf, bu dosbarthiadau 1E ac 1R yn gweld pantomeim Theatr Cymru, 'Hwyl Idris', gyda Mrs Rhian Ellis a Mrs Katherine Owen.



*Diolch i Mr Emrys W. Owen, Northfield, Birmingham am y llun yma. Llun ydyw o'i dad, y diweddar Thomas Llewelyn Owen, Hyfrydle, Llanrug a chynt o Fryngwyn. Saif Mr Owen ar y chwith. Mr Owen Hughes o Gwm-y-glo yw'r gŵr arall yn y llun. Bu Thomas Llewelyn Owen yn organydd yng Nghapel Bryngwyn ac yn dysgu plant i ganu ac actio. Llun ydyw hwn o Gân actol 'Suo Gân'. Enillodd y genethod sawl gwobr gyntaf mewn eisteddfodau lleol. Os gŵyr rhywun rywbeth am hynt a helynt y genethod, gadewch inni wybod.*


MODURDY MENAI




FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

CYMANFA GANU
DOSBARTH CAERNARFON
1900


TAFLEN

CYMANFA FLYNYDDOL

Y SEITHFED AR HUGAIN

YSGOLION SABBOTHOL Y METHODISTIAID

DOSBARTH CAERNARFON,

NGHAPEL MORIAH,

CAERNARFON,

DYDD IAU, MAI 24ain, 1900.

Y Canu dan ofal yr Arweinwyr Canu yn y gwahanol Gynulleidfaoedd.

ARWEINYDD CYFFREDINOL:

Mr. OWEN R. GRIFFITH, Llanrug.

**Gan fod Cymanfaoedd Canu yn** boblogaidd y dyddiau hyn gwn y byddwch yn falch o gael ychydig o hanes Cymanfa Ganu a gynhaliwyd bedwar ugain mlynedd yn ôl yng nghapel Moriah, Caernarfon, dydd Iau, Mai 24, 1900. Arweinydd y Gymanfa oedd Mr Owen R. Griffith, Cwellyn, Llanrug. Cyfeilydd Mr Orwig Williams.

Trefn y cyfarfodydd fel hyn. Am ddeg o'r gloch cynhadledd o gynrychiolwyr a charedigion yr Ysgol Sul. Cafwyd adolygiad ar waith Ysgolion Sul y Dosbarth am y flwyddyn. Agorwyd y mater gan y Parch R. Humphreys, Bontnewydd. Cyfarfod y prynhawn yn dechrau am hanner awr wedi un. Llywydd Mr S.R. Williams, Salem. Cyfarfod yr hwyr yn dechrau am bump o'r gloch. Llywydd, Parch Evan Jones, Moriah. Efallai bod rhai o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa yn cofio'r Gymanfa. Yr oedd y canu yn fendigedig.

### YR ORYMDAITH

Gan fod y tywydd yn caniatáu cafwyd gorymdaith o aelodau holl Ysgolion Sul Dosbarth Caernarfon trwy brif heolydd y dref a chyfarfod canu byr ar y Maes. Dywedir na welwyd gorymdaith harddach erioed a bod y plant yn ymddwyn yn barchus ac yn deilwng fel aelodau o'r Ysgol Sul. Dyma enwau'r ysgolion gymerodd ran yn yr Orymdaith a chofiwch fod Owen R. Griffith wedi bod trwy'r ysgolion i gyd ddwy waith yn ymarfer canu'r tonau. Haedda glod uchel am ei waith. Wrth gwrs, yr oedd hyn yn ôl am flynyddoedd, sef paratoi ar gyfer y Gymanfa a byddai'r arweinydd bob blwyddyn yn mynd trwy'r Ysgolion. Sylwch yn rhestr enwau'r ysgolion nad ydyw enw Pontrhythallt ynddi am y rheswm mai ym 1907 yr adeiladwyd Capel Pontrhythallt. Moriah, Engedi, Siloh, Siloh Bach, Penrallt, Mark Lane, Glan y Môr, Workhouse, Penygraig, Beulah, Cae Athraw, Croes y Waun, Waunfawr, Groeslon, Salem, Ceunant, Tan y coed, Llanrug, Nazareth, Bont Newydd, Castle Square.

Yng nghyfarfod y prynhawn holwyd y plant ar 'Oriau Olaf Iesu Grist', Marc XIV a XV gan y Parch James Jones, Croesywaun. Hefyd bu cyflwyno gwobrwyon a thystysgrifau am ddysgu'r Rhodd Mam, yr Hyfforddwr a'r Rheolau Disgyblaethol o'r Cyffes Ffydd.

Yng nghyfarfod yr hwyr y Parch R. Humphreys yn holi'r holl ysgolion ar Hyfforddwr Pennod IX. Y Parch R. Williams, MA, Llanllechid oedd yn beirniadu yr arholiad ysgrifenedig. Canwyd dwy anthem 'Fel y brefa'r hydd' a 'Pan lesmeirio fy nghalon'. Canwyd *God Save the Queen* ar y maes am ei bod yn ddiwrnod pen-blwydd y frenhines.

### TYSTEB I'R ARWEINYDD

Pan oedd Mr Owen R. Griffith yn ymddeol o'i swydd fel arweinydd canu yng Nghapel Mawr, Llanrug ac fel arweinydd Cymanfaoedd y cylch fe basiwyd i gyflwyno tysteb iddo ym 1911. Gwelais y dysteb sydd wedi ei fframio ac yn bictiwr hardd yn hongian ar y mur yn Cwellyn. Dyma'r ysgrifen arni.

*Dymunwn eich caniatâd i gyflwyno i chwi yr anerchiad syml hwn fel arwydd o'n parch tuag atoch a'n gwerthfawrogiad o'ch llafur gyda chaniadaeth y Cysegr yn y Capel Mawr MC Llanrug am yr yspaid o ddwy flynedd ar hugain.*

*Ymgymerasoch â'r gwaith o arwain y canu cynulleidfaol gyda sêl a ffyddlondeb. Bu eich ymdrechion yn foddion i raddau helaeth i wneud y rhan hwn o wasanaeth 'Tŷ'r Arglwydd' yr hyn y dylai fod.*

*Hefyd gweddus yw cyfeirio at y rhan blaenllaw gymerasoch gyda Dirwest, y Band of Hope, Dosbarthiadau y Tonic Solffa, canu corawl yn ogystal ag arwain Cymanfaoedd Ysgolion yng Nghapeli Seilo Moriah, Engedi yng Nghaernarfon. Trwy hyn enillasoch i chwi eich hun air da gan bawb.*

*Wrth ymneilltuo fel hyn o un cylch i wasanaeth dymunwn i chwi bob nerth i barhau yn ffyddlon ac ymroddedig gyda gwaith y Meistr Mawr yn gyffredinol ac eiddunwn hefyd i chwi a'ch teulu hir oes eto.*

Arwyddwyd gan y blaenoriaid: Morris Roberts, Owen Roberts, T.J. Lloyd, R.O. Williams, Hugh Roberts, R.W. Ellis, R.J. Roberts.

### Y DARLUN AR Y MUR

Y mae darlun o'r Capel Mawr yn hongian ar fur y Festri. Gwaith llaw Mrs Sidney Griffith, priod Owen R. Griffith ydyw wedi ei wneud ar siamplar. Enillodd Mrs Sidney Griffith y wobr gyntaf am y pictiwr yn Eisteddfod y Capel Mawr. Dymuniad Miss Milly Griffith (merch) a Mr Caerwyn Griffith (mab) oedd cael rhoi'r pictiwr i fyny yn y Festri er cof am eu tad a'u mam.

Bu Miss Milly Griffith yn cyfeilio yng nghapel MC Llanrug am oddeutu deugain mlynedd. Bu'n aelod ffyddlon a chymerodd ddiddordeb eithriadol gyda'r plant i'w dysgu a chyfeilio yn yr Eisteddfodau.

Bu farw yr arweinydd medrus Owen R. Griffith, Hydref 31 1921 yn 61 mlwydd oed. 'Y Delyn Aur' oedd y dôn olaf iddo arwain.

**Duw, o'i aelwyd a'i deulu – a'i galwodd**
**O'n golwg: wrth gefnu,**
**Arwain côr wnai'r cerddor cu**
**I ogoniant tan ganu.**
*Glan Rhyddallt*

**Llongyfarchiadau i Mrs Williams ar gyflawni hanner canrif fel colofnydd i'r Herald Cymraeg. Cyfle da hefyd i ddiolch am ei chyfraniad misol i'r Eco.**





*Mr Owen R. Griffith a'i briod Mrs Sidney Griffith.*

**Bu cam-brintio rhan o Ddyddiadur 1945 yng ngholofn 'Agor Ffiniau'r Gorffennol' fis yn ôl. Gadawyd manylion Gorffennaf allan. Rhoddwyd manylion Awst o dan Gorffennaf. Hyn sydd yn gywir. Ymddiheurwn. – Gol.**

**Gorffennaf**

Iau 5: Diwrnod Etholiad
Llun 9: Diffyg ar yr haul heddiw. Gwelais y diffyg am bedwar o'r gloch rhwng cymylau dair gwaith.
Sadwrn 14: Troi'r cloc yn ei ôl un awr heno.
Llun 23: Cael ffurflen i ofyn am ragor o lo.
Iau 26: Y Blaid Lafur yn ennill y wlad. Willie Arfryn (W.R. Williams) yn ennill Sedd Heston a Isleworth. Llongyfarchiadau calonnog iddo.
Gwener 27: Goronwy O. Roberts yn dwad heibio i ddiolch heno am i ni ei ethol yn Aelod Seneddol. Pawb yn ei longyfarch.

**AWST**

Dydd Mawrth 7: Y Bom Fawr newydd gan America a Phrydain yn synnu'r byd. Un yn chwalu tref.
Mercher 15: HEDDWCH trwy'r byd heddiw. Japan wedi ildio. Diolch i Dduw am heddwch eto. Dau ddiwrnod o wyliau trwy'r wlad.
Gwener 17: Y Japaneaid yn ail-ddechrau ymladd yn ein herbyn ni yn Burma. Bechgyn o Gymru yno. Cyndyn ydynt o roddi eu harfau i lawr.

## DRAENOG



**Congrats mawr i Ysgol Bryn Smithy am gynnwys ychydig o Gymraeg yn eu cylchgrawn 'Yr Efail'. Mae'n siŵr ei bod hi wedi bod reit anodd gwneud hyn a chyn lleied o blant yr ysgol yn Gymry Cymraeg. Thanciw mawr am inseit mor glir i fywyd a gwaith yr ysgol.**


GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG
FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol

# LLANRUG

NEWYDDION PENTREF – Os oes gennych newyddion i'w rhoi yn yr 'Eco', hoffwn pe baech yn cysylltu â mi. Mae'n amhosibl cynnwys enwau personau os na ddaw'r wybodaeth i law. Cynhwysir enw pawb a dderbynnir. Ni adewir enw neb allan yn fwriadol.

*Eirlys Pierce (Gohebydd)*

BORE COFFI – Caed Bore Coffi llwyddiannus yng Nghanolfan Hafan Elan, ddydd Mercher, Mai 7. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Ellen Williams, Rhif 6 a Miss Olwen Price, Rhif 8. Dymuna'r trigolion ddiolch yn gynnes am ddwy rodd. Derbyniwyd set deledu gan Mr a Mrs R. Pritchard, Tŷ Newydd, Llanrug a phiano gan Mr a Mrs H. Hughes, Snowdon Valley, Llanberis.

BEDYDDIO – Dydd Sul, Mai 18 bedyddiwyd dwy ferch fach. Yn y bore, yng Nghapel Pontrhythallt, bedyddiwyd Cheryl Elizabeth, merch Mr a Mrs John Norman Edwards, 20 Talybont. Yng Nghapel Mawr, y prynhawn, cafodd Ffion Lynette, merch Mr a Mrs Peter R. White, 38 Glanffynnon ei bedyddio. Gweinyddwyd gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, CAPEL MAWR – Caed Noson Goffi ar Fai 1. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts. Anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn wael, a diolchwyd am bob cyfraniad. Cafwyd adroddiad gan y trysorydd, Mrs M. Jones, Ogwen. Trefnwyd i fynd i Sasiwn Genhadol y Chwiorydd yn Llangefni ar Fai 20. Rhoddwyd y coffi gan Mrs J. Davies, Plas Gwyn a Mrs J.G. Jones, Gorffwysfa. Drwg gennym am absenoldeb Mrs J.G. Jones oherwydd gwaeledd. Cynorthwywyd Mrs Davies gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt. Diolchwyd i'r merched, ac i bawb am eu ffyddlondeb ar hyd y tymor gan y llywydd, Mrs N. Roberts, Annedd Wen. Dechreuir y tymor nesaf ym mis Hydref.

Y SEINDORF – Ar Ebrill 24 bu Helfa Drysor wedi ei threfnu gan Mr a Mrs James Jones. Wedi llawer o hwyl cyrhaeddodd pawb Westy'r Halfway, Y Felinheli yn ddiogel. Aeth y wobr gyntaf i yrrwr modur XUN 788K sef Mr Raymond Ll. Jones.

Ebrill 26 aeth y seindorf i Lanberis i Ddydd Agored Cynllun Gwaith Trydan, Dinorwig. Dymunant ddiolch i bobl yr ardal am y gefnogaeth a gawsant y diwrnod yma.

Cyfarfu Pwyllgor y Merched ar Fai 12. Trefnwyd cynnal arwerthiant yn 'Feed My Lambs', Caernarfon ar Fehefin 21. Bydd y pwyllgor yn ddiolchgar am unrhyw sborion ar ei chyfer. Gellir cysylltu â Mrs Joyce Jones neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb ar Fai 8 yn y Sefydliad Coffa. Y cadeirydd oedd y Rheithor, y Parch Gwynfor Williams a'r gŵr gwadd oedd Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol. Yn ei anerchiad cawsom hanes bywyd Mr Williams yn ystod y rhyfel ble gwasanaethodd dan y diweddar Iarll Mountbatten o Burma. Talwyd diolch iddo gan Mrs M. Lloyd Williams.

Rydym fel Clwb yn llongyfarch Mrs M. Lloyd Williams ar gyrraedd hanner cant o flynyddoedd o ysgrifennu i'r Herald Gymraeg. Ymddangosodd ar y teledu i nodi'r achlysur hanesyddol.

Rhoddwyd y te gan Mrs Ceinwen Roberts, Mrs Katie Pritchard a Mrs Megan Williams, y dair o Dan-y-coed, a Mrs Jones, Sŵn y Gwynt a Miss A.B. Griffith, Ystad Minffordd. Enillwyd y raffl gan Mrs Myfi Roberts, 2 Plastirion.

Bydd y Clwb yn mynd ar daith ar Orffennaf 10. Dylai'r aelodau sy'n bwriadu mynd roddi eu henwau (y mis nesaf) i un ai Mrs Myfi Roberts neu i Miss D. Jenkins, 1 Penrallt, Ffordd yr Orsaf. Ffôn 5994. Dyma'r penillion a gyfansoddodd y Parch W.O. Roberts.

**I GYFARCH MR O. STANLEY ROBERTS**

**Llawen gwmni o drigolion**
**Bro Llanrug sydd yma'n cwrdd,**
**I groesawu o un galon**
**Un o'n bechgyn fu i ffwrdd.**

**Un o blant Eryri ydyw.**
**Ni chadd neb fagwraeth well.**
**Gadael wnaeth ei gartref clodwiw**
**Gan anturio i wledydd pell.**

**Wedi gadael bro Eryri**
**I Brunei ym mhellter byd,**
**Dal yn ffyddlon a wnaeth Stanley**
**I'w hen draddodiadau i gyd.**

**Dysg a chrefydd gadd ei orau,**
**Er ymhell mewn estron fro**
**Er gweld myrdd o wahaniaethau**
**Dal yn Gymro da wnaeth o.**

**Daethoch adref am ryw seibiant,**
**Hanner blwyddyn cwta yw,**
**Gwir ddymunwn oll bob llwyddiant**
**I chwi byth, dan fendith Duw.**

CAPEL MAWR – Yng nghyfarfod Gwobrwyo yr Henaduriaeth yn Engedi, Caernarfon, gwobrwywyd Wendy Pierce Jones, Gwydryn a Nia Wyn, Y Wern am eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol.

LLWYDDIANT CERDDOROL – Llongyfarchiadau i Menna Jones, Pant Mwyn ar lwyddo mewn arholiad canu'r piano Gradd 1 (gyda chymeradwyaeth). Athrawes Menna yw Mrs Roberta Griffith, Bod Elwy.

PLAID CYMRU – Cafwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen nos Iau, Mai 15. Bydd Cynhadledd Arfon yn cyfarfod yn y dyfodol agos a gofynnwyd i'r aelodau hysbysu'r ysgrifennydd o unrhyw benderfyniad a ddymunent ei roi gerbron y cyfarfod. Trefnwyd manylion yr Helfa Drysor sydd i'w chynnal Mai 23. Enillwyr y Clwb Cant am y mis: 1. Mrs Pat Regan; 2. Mr Berwyn Hughes a 3. Mr Alun Pierce. Cafwyd trafodaeth ar weithgareddau'r Pwyllgor Etholaeth.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Mai 13 gyda Mrs N. Lovatt yn y gadair. Dyma'r tro olaf iddi hi fod yn y gadair ar ôl bod yn llywydd am ddwy flynedd. Terfyna Mrs Beth Ann Williams ei thymor fel ysgrifennydd. Diolchwyd yn galonnog iddynt gan Miss Phyllis Ellis am eu gwasanaeth. Miss Phyllis Ellis fydd y llywydd am y ddwy flynedd nesaf gyda Mrs Ann Llwyd yn Is-lywydd.

Llongyfarchwyd Mrs Ann Lloyd Griffith ar enedigaeth mab, a Mrs Mary Lloyd Williams ar ddathlu hanner can mlynedd o ysgrifennu i'r Wasg.

Cydymdeimlwyd â Mrs Carrie Owen wedi colli ei thad, ac â Mrs Gwenda Roberts, Mrs R. Prescott a Mrs Hughes, Tan-y-coed, yn eu gwaeledd. Rhoddodd Miss Janet Pritchard o Dregarth arddangosiad o 'goluro'. Dwy o aelodau o Benisarwaun oedd y modelau. Diolchwyd gan Mrs Beth Jones.

Mrs Lovatt a Miss Megan Humphreys a'n cynrychiolodd yn Aberystwyth a chawsom adroddiad cynhwysfawr o'r gynhadledd ganddynt.

(1) Gwrthwynebu archwilio tir Cymru gyda'r bwriad o gladdu gwastraff niwclear ynddo. Mrs Mary



***Plant Llanrug a fu'n fuddugol yn y cwis ar Yr Awr Fawr. Rhes ôl o'r chwith:*** *Dafydd, Alan ac Euros. Rhes flaen: Bethan. Olwen a Rhian.*

Vaughan Jones o'r Waunfawr, ar ran rhanbarth Arfon a fu'n siarad ar y pwnc hwn. (2) Gwrthwynebu bwriad y Llywodraeth i adeiladu rhagor o atomfeydd yng Nghymru. (3) Diweithdra – siaradwr Miss Gwyneth Evans, y Llywydd Anrhydeddus. (4) Pris dŵr Cymru o'i gymharu â'r dŵr a gaiff Lloegr o Gymru (Môn). (5) Newid trefn talu pensiynau a blwydd-daliadau. (6) Y bedwaredd sianel – cangen Llanuwchllyn, "Ein bod yn annog pawb yn ein Mudiad i fod yn wyliadwrus am ein Cymreictod gan mai Mudiad i Ferched Cymru ydym i hyrwyddo diwylliant, addysg a'r celfyddydau yng Nghymru TRWY GYFRWNG YR IAITH GYMRAEG. (7) Gwrthwynebu newid deddf cydsyniad rhywiol, gan adran Powys. (8) Cyfyngu ar hysbysebu diodydd meddwol ar y teledu.

Bydd y daith haf ar Fehefin 10 i Gonwy ac yna am swper i Blas Maenan. Enwau gyda thâl o £3 i Eirlys Pierce neu Beth Ann Williams erbyn Mai 31.

Dymunwyd yn dda i Goronwy Williams, gofalwr yr ysgol, a phenderfynwyd rhoddi anrheg iddo fel gwerthfawrogiad o'i gymorth yn ystod y tymor.

LLONGYFARCHIADAU – i Dafydd Whiteside Thomas, ar ennill y wobr 1af am Erthygl addas i'w chyhoeddi mewn Papur Bro, yn Eisteddfod Môn.

BABAN NEWYDD – Llongyfarchiadau i Dewi a Gwenda, Melbourne House ar enedigaeth merch fach ar Fai 19.

GWELLHAD BUAN – Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs Lucy Jones, 20 Bro Rhyddallt, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Da gweld Mrs Selwyn Morris, Clydfan gartref ar ôl ei gwaeledd.

CYDYMDEIMLIR – â theulu'r diweddar Mrs M. Owen, gynt o 7 Bro Rhyddallt yn eu profedigaeth. Bu gwasanaeth cyn yr angladd yng Nghapel y Bryngwyn, lle yr oedd yn aelod.

FESTRI'R PASG – Cynhaliwyd Festri'r Pasg yn yr Ysgol Gynradd yn ddiweddar. Yn ei adroddiad dywedodd y Rheithor fod problemau fel diweithdra, fandaliaeth a thrais yn sicr o fod yn rhan o ymgyrch yr Eglwys i sicrhau iawnderau dynol. Etholwyd Miss A.C. Jones, Glanllyn yn Warden i'r Rheithor a Mrs Stanley Jones, 11 Brynmoelyn yn Warden y Bobl ac fe etholwyd Cyngor Plwyfol Eglwysig Newydd a derbyniwyd y fantolen fel un gywir.

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau ddwywaith er yr adroddiad diwethaf. Ar Ŵyl Sant Philip a Sant Iago bu gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Mihangel gyda'r Rheithor yn gweinyddu. Wedi'r gwasanaeth darparwyd lluniaeth ysgafn yn y Rheithordy gan Miss C.J. Roberts, Y Fron, Mrs R.G. Griffiths, Orwig House a Miss Gwennie Griffiths a llywyddwyd dros y cyfarfod busnes gan Mrs Williams, Y Rheithordy. Ym mis Ebrill bu'r cyfarfod yn Y Rheithordy o dan lywyddiaeth Mrs Williams gyda'r rheithor yn arwain y gwasanaeth agoriadol. Yn ystod y cyfarfod fe dynnwyd allan raglen ar gyfer 1980 - 81. Y gwestwragedd oedd Mrs V. Spratt a Miss A.C. Jones, Glanllyn.

LLONGYFARCHION – Llongyfarchwn y canlynol o blant Ysgol Sul Sant Mihangel am ennill gwobrau yng Ngŵyl Gorawl Eryri a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Helen, Penisarwaun ar Sul, 18 Mai. Dan 4 oed: Sioned Jacques; Dan 5: Owen Tudur Davies. O 5 - 6: Sarah Alison Evans; Bethan Lloyd Roberts. O 6 - 6: Nicola Jones, Carolyn Jones. O 8 - 10: Gwawr Owen, Emma Jane Barnard, Nia Wyn Jones, Sandra Wyn Jones, Derek Ian Evans. O 10 - 12: Llinos Davies, Alan Jones a Christopher Gardiner. O 15 - 21: Owen Eilir Jones. Llongyfarchwn hefyd eu hathrawon yn eu priod feysydd. Arweinydd Gŵyl y Plant oedd y Parch D. Gwynfor Williams, Rheithor Llanrug.

CYDYMDEIMLWN – â Mrs A.M. Williams, 49 Glanffynnon yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar. Yr oedd ei mam sef Mrs M. Griffiths, Llanberis wedi arfer bod yn byw yn Llanrug ac yr oedd wedi cyrraedd yr oedran teg o 96.

CRONFA YMCHWIL Y GALON – Casglwyd £111.89 i'r gronfa yn ystod mis Ebrill. Y casglyddion oedd Mrs Beryl Thomas, Gerallt; Miss G. Jones, 1 Bryn Heli; Miss L. Roberts, London House; Mr a Mrs G. Roberts, Tŷ Gwyn a Mr a Mrs A. Parry, 2 Bryn Heli. Dymuna'r pwyllgor ddiolch iddynt am eu llwyddiant ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

CYDYMDEIMLAD – Daeth dwy brofedigaeth i deulu Tŷ Fry yn ddiweddar. Bu farw tad Mrs Owen a bu farw mam Mr Owen. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu colled fawr.


SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU
**T**
**CEPAS**
Ffordd yr Orsaf
**LLANRUG**
*(Ffôn: Llanberis 205 gyda'r nos)*

# LLANBERIS

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Mai 24 fe briododd Dafydd Huws, mab Mr a Mrs W.A. Hughes, 9 Rhes y Faenol â June Thomas. Fe'u priodwyd yn Hen Dŷ Gwyn ar Daf, Dyfed, cartref y briodferch. Byddant yn gwneud eu cartref yng Nghaerdydd, ble mae'r ddau yn athrawon.

CLWB Y MAMAU – Yng nghyfarfod olaf y tymor o Glwb y Mamau ar Fai 14 dewiswyd swyddogion am 1980-81. Cadeirydd – Mrs Carys Hughes, Ysgrifennydd, Mrs Eiddwen Thomas, Trysorydd, Mrs Eirlys Ellis, Pwyllgor: Mrs Delyth Hughes, Mrs Jean Roberts, Mrs Mair Evans, Mrs Lyn Ellis, Mrs Jan Jones, Mrs Ann Jones.

YR YSGOL FEITHRIN – Yn ystod Wythnos Gŵyl Mudiad Ysgolion Meithrin (Mai 12-17) cynhaliwyd nsoon goffi lwyddiannus iawn at yr Ysgol Feithrin leol. Hoffai'r trefnwyr ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd ac a gynorthwyodd i wneud y noson yn llwyddiant.

Enillwyr: Enw'r Ddol – CLAIRE: Mrs E. Lewis, Dôl Elidir. Raffl. 1: Carys Williams, Bryn Cwm y Glo; 2. A. Williams, 7 Stryd y Ffynnon, Llanberis; 3. B. Roberts, 25 Stryd Goodman; 4. D. Roberts, Rhianfa. 5. N. Morris, 54 Dôl Elidir; 6. . E. Nisket, Dôl Elidir; 7. T. Roberts, 14 Stryd Goodman, 8. Andrea, 20 Stryd Goodman.

LLONGYFARCHIADAU – I John Gwyn Williams, Eirianfa ar ei ddyweddiad â Rhian Jones o Ddeiniolen.

ARHOLIAD SIROL – Yn y Cyfarfod Sirol yng Nghaernarfon y mis hwn gwobrwywyd Nia Gwyn a Jaqueline Sellars am eu gwaith canmoladwy yn arholiad Sirol Ysgolion Sul Arfon. Daeth Siân Gwyn yn agos iawn i'r goreuon hefyd. Llongyfarchiadau iddynt.

MABOLGAMPAU – Melanie Sellars, Stryd Goodman enillodd y Gwpan Vitrix Ludorum ym Mabolgampau Ysgol Brynrefail eleni. Daeth yn ail yn y ras 100m, 1af yn y rasus 200m, 400m, 8000m a 1500m. Torrodd y record yn y rasus 400m a 800m. Daeth yn gyntaf yn y ras draws gwlad a gynhaliwyd bythefnos yn ôl ym Mangor. Da iawn Melanie – dalia ati, gobeithio y cawn glywed mwy am dy lwyddiant yn y dyfodol.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Meurig Evans ac Iwan, Siop Anrhegion ddiolch i'w ffrindiau a'r teulu am eu caredigrwydd ar achlysur pen-blwydd Iwan yn 21 oed. Dymuna Iwan ddiolch hefyd i'r llu cyfeillion am eu dymuniadau da wedi ei ddamwain anffodus.

PENODIAD – Bydd Gwenda, merch Mr a Mrs Owen Davies, Stryd yr Wyddfa yn gorffen ei chwrs yn y brifysgol ymhen ychydig wythnosau, ac mae wedi ei phenodi yn *Computer Programmer* yng ngholeg polytechnig Birmingham.

Swydd bwysig fydd ganddi a chyfrifoldeb gyda hynny. Fe fydd yn gyfrifol am addysgu myfyrwyr mewn dulliau compiwtar.

Llongyfarchiadau iddi, a dymunwn bob llwyddiant iddi

CAMP CERDDED – Yn ystod gwyliau'r Diolchgarwch diwethaf a'r tywydd yn ffafriol fel y cofiwch aeth Trystan Thomas gyda'i dad i gerdded y mynyddoedd. Cerddodd i gopa'r Wyddfa, ac ar ôl ysbaid fach, cerdded i lawr yr ochr arall i Westy Pen y Gwryd. Tipyn o gamp i fachgen bach 6 oed.

Clywodd Mr Briggs, Pen y Gwryd am ei fenter ac estynnodd wahoddiad i Trystan i ymuno â'r Clwb Dringo a sefydlwyd gan Sir Edmund Hilary a'r Arglwydd Hunt, a'r dringwyr enwog eraill, a derbyniodd fathodyn arbennig i gofnodi'r daith i **gopa'r Wyddfa.**



*Trystan Thomas, Stryd Newton*

LLONGYFARCHION – I Mr a Mrs Robert Lloyd, 4 Dôl Elidir ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach i'w mab Gareth a'i wraig yn Lemjo, Yr Almaen.

Hefyd ganwyd mab bychan i Ruth a Stanley Williams, Penisarwaun, ŵyr bach newydd i Mr a Mrs Huw Davies, Hafod Lydan, a Mrs Elsa Williams, Stryd Turner.

MARW – Yn yr ysbyty ym Mangor ar ôl gwaeledd hir a blin bu farw Hugh Davies, Maes Derlwyn yn 70 mlwydd oed. Collodd ei briod rai blynyddoedd yn ôl ac ni fu llawer o lewyrch arno ar ôl hynny. 'Roedd wedi gofalu amdani yn dyner iawn am flynyddoedd yn ei gwendid, a bu ei cholli yn ergyd fawr iddo. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll.

YN YR YSBYTY – ym Mangor mae Mrs Edith Hughes, Cadfan; Mr Eddie Jones, Blaen Ddôl; Mrs Richard Jones, Ffordd Capel Coch. Mewn ysbyty yn yr Almaen, Mr Jones, Arfryn, Capel Coch. Dymunwn adferiad buan iddynt oll.

WEDI GWELLA – Da yw deall fod y rhai a ganlyn wedi dychwelyd adref ar ôl gwaeledd – Mrs Rhona Thomas, Stryd Newton a Mrs Hanna Williams, Alexandra House.

PLAID CYMRU – Cyfarfod cyhoeddus yng Nghwmni'r Aelod Seneddol a'r cynghorwyr lleol i drafod problemau lleol yn y Ganolfan, nos Iau, Mehefin 12 am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

BINGO ELUSENGAR – Cynhaliwyd noson o 'Fingo a Chyw Iâr' yng ngwesty'r Gwynedd yn ddiweddar gyda'r elw yn mynd at y Gangen Leol o Blaid Cymru.

Dymuna'r trefnyddion ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion i'r gwobrau: Mrs Rhys Owen; Mrs Trefor Williams; Carys, Eiddwen a Ceinwen; Mrs A.B. Jones; Mrs Owen; Mrs Catherine Lloyd Williams; Mrs D.G. Williams. Enillwyd y rafflau gan Ruth Lennon, Mrs Myra Price, Peter Clark, Jean Parry, Glenys Owen a Mrs Woodward. Diolch arbennig i Mrs Carys Hughes am fod yn alwr ar fyr rybudd. Bydd y Bingo nesaf yn ystod **mis Hydref.**

NEWYDDION YSGOL DOLBADARN

Daeth Parti Cerdd Dant Ysgol Dolbadarn yn fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Eryri. Dyma'r parti: Catrin Roberts, Janet Hughes, Catrin Lennon, Petula Williams, Jane Parry, Sian Elen Pritchard, Ffion Jones, Alison Edwards, Lisa Jane Rudkin (a Waldo'r mascot) a Helen Mai Pritchard yn edrych ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bro Colwyn. Yn y cerdyn a welir yn y llun, cafwyd dymuniadau da gan lu o gyfeillion y fro. Diolch yn fawr. (Llun ar dudalen 5)

YMGYRCH LYFRAU 1980

Cafwyd ymateb ardderchog i'r Ymgyrch Lyfrau eleni gan ardalwyr Llanberis a Nant Peris. Gwerthwyd 658 o lyfrau, sef gwerth £725.

Dymuna Mr Trebor Evans,trefnydd yr Ymgyrch, ddiolch am y gefnogaeth wych i'r Ymgyrch.

Enillwyd gwobrau am werthu llyfrau gan y disgyblion a ganlyn.

John Gareth Morris wedi gwerthu 29 o lyfrau, Beverly Pitts 20, Tony **Jones 19, a Huw Maxwell Hughes 18.**



CARNIFAL – Nos Sadwrn, Mai 10, cynhaliwyd Disgo Dewis Brenhines 80.

Y frenhines eleni yw Iona, merch Mr a Mrs T.J. Roberts, Dôl Elidir, a'r ddwy weinyddes fach yw Jaqueline Sellars, Stryd Goodman, a Ceri Stott, Garth Maelod.

## PEDAIR CENHEDLAETH



*Mor amlwg y gwelir yr hapusrwydd a ddaeth genedigaeth Delyth fach i hen nain, Mrs Mary Thomas, i nain, Mrs Nellie Davies a dad, Mr Haydn Davies.*

Lle Newydd Sbon Ar Gyfer Noson Allan!

GWESTY'R
FOELAS
LLANRUG

(Perch. Richard a Meirwen Thomas)
FFÔN: CAERNARFON 4652

PRYDAU BASGED BLASUS
BAR CLYD Â DEWIS DA O DDIODYDD

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

# GŴYL GORAWL ERYRI

**Yn Eglwys Sant Helen, Penisarwaun, y cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Eryri ar nos Iau'r Dyrchafael ac ar brynhawn y Sul Canlynol. Arweinydd gŵyl nos Iau oedd Mr James Griffiths, Glasinfryn arweinydd Côr Bro Infryn, Rheithor Llanrug y Parch D. Gwynfor Williams oedd arweinydd gŵyl y Plant brynhawn Sul.**

Daeth cynulliad da i ŵyl yr oedolion ond yr oedd yr Eglwys yn orlawn i ŵyl y plant. Yr organydd yn y ddwy ŵyl oedd Mr Bryngwyn Griffiths, Penisarwaun. Miss C.A. Gillespie oedd arholwr y plant a phobl ifanc yr Ysgolion Sul a'r Eglwysi ac yr oedd cynifer â 143 wedi ymgeisio yn yr holl adrannau. Themâu'r arholiadau ysgrifenedig oedd Gofalu ac y mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

**15-21 oed:** Cydradd 1af, Jennifer Ellis, Nant Peris a Lorretta Owen, Llanfairis gaer. Gwobrwywyd

**15-21 oed:** cydradd 1af, Ruth Lennon, Llanberis, Heather Roberts, Llanberis, Owen Eilir Jones, Llanrug.

**12-15 oed:** cydradd 1af, Jennifer Ellis, Nant Peris a Lorretta Owen, Llanfairisgaer. Gwobrwywyd Marc Antony Williams, Cynthia Orritt, Anwen Morris, Doreen Wyn Price, Cwm y Glo; Karen Elizabeth Thomas, John Gwilym Thomas, Clive Hughes, Llanfairisgaer; Colin Worth a Jean Hughes, Llandinorwig.

**10-12 oed:** CYDRADD ØAF, Catrin Jones, Llanfairisgaer ac Yvonne Denise Jones, Llandinorwig. Gwobrwywyd Llinos Davies, Alan Jones, Christopher Gardiner, Llanrug; R. Christopher Jones, Myfanwy A. Roberts, Sandra Williams, Cwm y Glo; Meirwen Williams, Marie Griffiths, Sion Williams, Penisarwaun; Paula Tracy Hughes, Hefin Jones, Sandra Morris, Llandinorwig; Angela Lloyd, Bethan Bowles, Gwenlllian Burns, Sharon Thomas, Lyndon Hughes, Allen Thomas, Gerallt Wyn Thomas, Dafydd Chubb, Llanfairisgaer; Catrin Lennon, Ian Edwards, Ian Williams, Dewi Harris a Darren Price, Llanberis.

ARHOLIADAU LLAFAR

Dan 4 oed: Sioned Jacques, Llanrug; Nia Lewis, Sioned Lewis, Andrea Paterson, Penisarwaun; Gavin Lloyd Hughes, Colin Ellis, Aneuryn Foulkes, **Llanberis; Sian Griffiths, Dylan** Hughes, Kelly Morris, Hayley Williams, Llandinorwig.

**Dan 5 oed:** Owen Tudur Davies, Michael Wyn Jones, Llanrug; Carys Williams, Rona Mai Humphreys, Alan Edward Sinclair, Cwm y Glo; John Elwyn Foulkes, Tracy Ann Fleming, Rhian Rhagfyr Roberts, Olwen Harris, Stephen Edwards, Louise Ellis, Llanberis; Rhian Wyn Hughes, Llandinorwig; Jonathan Sweet, Rebecca Pierce, Rachel Rickard, Llanfairisgaer.

**5-6 oed:** Sarah Alison Evans, Bethan Lloyd Roberts, Llanrug; David Foulkes, Yvonne Orrocks, Penisarwaun; Colin Griffiths, Kevin Edwards, Llifon Wyn Goulkes, Nia Wyn Roberts, Michelle Willis, Dylan Edmund Jones, Mark Ellis, Shane Wyn Price, Llanberis; Simon Morris, Arwel Hughes, Neil Williams, Linda Jones, Alun Griffith, Christopher Evans, Rebecca Thomas, Llandinorwig.

**6-8 oed:** Nicola Jones, Carolyn Jones, Llanrug; Rhian Morris, Roberts Cenwyn Humphreys, Nia Wyn Hughes, Andrew Williams, Cwm y Glo; David Anthony Ellis, Nant Peris; Mark Jones, Maria Willis, Llanberis; Emyr Wyn Williams, Berwyn Paterson, Amanda Orrocks, Penisarwaun; Donna Louise Thomas, Anwen Jones, Dinorwig; Sharon Wyn Williams, Howard John Frazer Jones, Gerallt Morris, Llandinorwig; Beverley Elken, Maria Ann, Howard Pierce, Martin David Jones, Harold Richard Burns, Emily Fiona Pearson, Llanfairisgaer.

**8-10 oed:** Gwawr Owen, Emma Jane Barnard, Nia Wyn Jones, Sandra Wyn Jones, Derek Ian Evans, Llanrug; Karen Ann Foulkes, Alison Mary Jones, Cwm y Glo; Sandra Lynne Pleming, John Douglas Ellis, Nant Peris; Robert Anthony Jones, Cheryl Edwards, Nia Williams, Alsion Edwards, Belinda Griffiths, Llanberis; Sioned Ellen Frazer Jones, Carolyn Jones, David Worth, Nia Davies, Richard Meurig Jones, Karen Hughes, Paul Anthony Jones, Llandinorwig; Bethan Lloyd, Elena Ann Ellis, Christopher Hughes, Geraint Williams, Gary John Evans, **Llanfairisgaer.**



**DOSBARTH AMBIWLANS BETHEL Tua 1938**

*Rhes flaen o'r chwith: Frank Williams, Bro Dirion; T.H. Jonès, Rhianfa; Hughie Williams, Parc Wern. Ail res yn eistedd o'r chwith: P.C. Humphreys, Felinheli; W.T. Davies, Felinheli; W.O. Ellis, Rhos Alun; Dr Gwilym ap Vychan Jones, Felinheli; Isaac Parry, Bodlondeb; Stanley Griffith, Minffordd; Sgt. Llanberis. Rhes tri o'r chwith: Gwilym Roberts, Cefn Farm; Gwilym Pierce, Tŷ Mawr; T.H. Jones, Boston House; David John Jones, Penybuarth; Richard Jones, Greuor; Hughie Parry Jones, Post Office Row. Rhes gefn o'r chwith: Meredith Jones, Seion; John Morris Williams, Tyddyn Bach; T.H. Jones, Glanllyn; Tomi Postman; Kenneth Wyn Ellis, Rhos Alun; Harold Parry Jones, Post Office Row; Ifan Griffith, Coed Bolyn Bach. (Trwy garedigrwydd Mr Gwilym Vaughan Jones, Y Felinheli).*

# TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU – I un o blant yr ardal, Mr Alwyn Evans, Gwynle, Ffordd Bethel, Caernarfon ar ei ddewis yn flaenor yn Eglwys Seilo, Caernarfon. Mab yw Mr Evans i Mrs Catherine, a'r diweddar Mr Evan Evans, Preswylfa, Tai Trefor. Pob bendith i Mr Evans yn ei swydd newydd.

Pnawn Sul, Mai 25 etholir blaenoriaid gan aelodau Capel Tan-y-coed.

Nos Sul, Mai 18, croesawyd dwy aelod newydd i Gapel Tan-y-Coed gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts – Mrs C. Pritchard, Cefn Llwyd, priod Mr Gwynfa Pritchard, a Mrs Sharon W. Pritchard, Llys Arfon, priod Mr Hefin Pritchard, y ddwy yn ferched yng nghyfraith i Mr a Mrs W. Pritchard, Garnedd. Croeso cynnes iddynt i'n plith.

ARHOLIAD LLAFAR – Yng Nghymanfa Cylch Caernarfon yng Nghapel Bontnewydd gwobrwywyd y canlynol yn yr Arholiad Llafar, pob un yn cael y wobr gyntaf: Geraint Rees Roberts a Shoned Rees Roberts, Ty'n Llwyn, Jonathan Prys Williams a Richard W.J. Roberts, Prysgol, Tudor W. Jones, Mark W. Jones a John Elwyn Jones, Dolwen, Aled Parry, Annwen Parry, Wyn Barry a Bethan L. Parry, Ael-y-bryn, Ffion J. Williams, Fferm Minffordd, Lona P. Roberts, Alwena Roberts a Glenda Roberts, 1 Tai Minffordd, Simon B. Williams a Jonathan R. Williams, 15 Glanmoelyn a Mrs Catherine Evans, Preswylfa.

Hefyd gwobrwywyd am eistedd yr Arholiad Ysgrifenedig Amlyn Ll. Evans a Manon Ll. Evans, Carwyn, Rebeca A. Hughes a Vaughan Ll. Hughes, 'Rallt Deg, Wyn Parry a Bethan L. Parry, Ael-y-bryn, Glenda Roberts, Alwena Roberts a Lona P. Roberts, 1 Tai Minffordd a Linda W. Jones, Pant Clyd.

ARHOLIAD SIROL – Pnawn Iau, Mai 8 yn Engedi Caernarfon yng nghyfarfod gwobrwyo buddugwyr yr Arholiad Sirol gwobrwywyd Amlyn Ll. Evans, Manon Ll. Evans, Rebeca Hughes, Vaughan Ll. Hughes, Wyn Parry, Lona P. Roberts a Linda W. Jones.

Aelodau o Ysgol Sul Tan-y-coed yw'r plant hyn

CROESO ADREF – I Mr Jack Williams, Cartref ar ôl bod yn Ysbyty Eryri, lle y cafodd driniaeth lawfeddygol i'w law.

CYDYMDEIMLWN – â Mr Chris Wood, Pant-y-bryngwyn ar golli ei dad.

DIOLCH – Mae rhieni plant Ysgol Sul Tan y Coed yn dymuno datgan eu gwerthfawrogiad o waith Miss Megan Humphreys yn paratoi'r plant at eu harholiadau Ysgrythur.

# CYHOEDDI LLYFRYN AR BARC GWLEDIG PADARN

Cyhoeddir yr wythnos hon lyfryn yn cyflwyno i'r darllenydd y gwahanol atyniadau sydd i'w gweld ym Mharc Gwledig Padarn, ger Llanberis. Cyhoeddir y llyfryn yr un pryd ag yr ail-agorir ar ei newydd wedd at Ŵyl y Gwanwyn y Man Gwybodaeth i ymwelwyr a leolir yn hen adeilad y bont bwyso ar ganol y Prif Faes Parcio yn y Parc Gwledig.

Rhestrir yn y llyfryn dri brif atyniad yn y Parc Gwledig, sef, yr Hen Ysbyty Chwarel, yr addaswyd rhan ohono fel Canolfan Dehongli, ond lle byddai'r meistri chwarel gynt yn nyrsio'r rhai a anafid yn y chwarel; Chwarel Vivian, enghraifft o un o'r hynaf o Chwareli Dinorwig; a choed Dinorwig, Ardal Gadwraeth Natur lle ceir y Dderwen Ddigoes ac amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid.

ATY'.IADAU ERAILL

Eglura'. llyfryn fod hefyd oddi mewn i ffiniau'r Parc Gwledig atyniadau ychwanegol fel Rheilffordd Llyn Padarn, sy'n rhedeg ar ran o'r hen reilffordd a gludai'r llechi i lawr i'r Felinheli; yn ogystal ag Amgueddfa Chwarel Gogledd Cymru a lle'r adroddir hanes diwydiant chwareli'r Gogledd.

Rheolir Parc Gwledig Padarn gan Gyngor Sir Gwynedd a gellir cael y llyfryn deniadol am 50c (10c ychwanegol am gludiant) oddi wrth y Warden-Rheolwr, Parc Gwledig Padarn, Llanberis. Bydd cynorthwywr at alwad y cyhoedd yn y Man Hysbysrwydd i ateb cwestiynau ac i werthu cyhoeddiadau.

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd

GWASANAETH NEWYDD YNG NGHAERNARFON
Bathodynau Crwn ar gyfer . . .
Clwb Rygbi/Tîm Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc, etc
*Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:*
EURIG WYN
SIOP Y PENTAN
YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH

Brenisach y bratiau – coeliwch neu beidio, ond mi gefais gerdd o'r Waunfawr o'r diwedd. Can diolch i chi Tom Williams (Tom Garreg Fawr) am eich cerdd amserol i longyfarch Mari Lewis, am ei chyfraniad wythnosol i'r Herald Cymraeg dros gyfnod o hanner canrif.

Mae'n hyfrydwch gen innau hefyd gael eich llongyfarch Mrs Williams, a dymuno'n dda ichi i'r dyfodol. Mae'n dipyn o straen ceisio cynnal colofn fisol – ond un wythnosol am hanner canrif? – anhygoel ynte. **'Melys moes mwy'** ddweda' i.

Ydach chi'n cofio dod efo fi i Gaerdydd, Mrs Williams, i gymryd rhan yn rhaglen 'Yr Wythnos' sawl blwyddyn yn ôl bellach? Rhaglen a drefnwyd gan fy nghyfaill Gwilym Owen ydoedd, pan wahoddwyd rhai fel chwi a gyfrannai i bapurau wythnosol i'r stiwdio i drafod eich profiadau.

Rwy'n cofio'r diwrnod yn dda – 'roedd y diweddar annwyl fardd o Benygroes, John Llywelyn Roberts efo ni hefyd. Gwrando oedd John a fi ar hyd y daith a chwithau yn fwrlwm o atgofion diddorol.

Dyma gyfarchion Tom Williams i chi (a chyda llaw Tom, trowch i mewn yn amlach – mae croeso ichi yma bob amser).

Am ddal i ysgrifennu
I'r Herald, rhaid i mi
Longyfarch Mari Lewis
Teilyngu cân mae hi.
Ei cholofn yn yr Herald
A fu yn ddifyr iawn,
Heb os am Hanner Canrif
Mae'n wraig sy'n berchen dawn.

Y ddawn i ysgrifennu
Yn gynnil ac yn gain
Erthyglau darllenadwy,
Diddorol yw y rhain
Ni fyddai yr hen Herald
Yn Herald hebddi hi,
Yn ystod hanner canrif
Enillodd glod a bri.

Mae yn ei llyfrgell bellach
Lenyddiaeth benigamp;
Hi yn yr hen lythyrdy
Gynghorodd yr hen dramp –
I fod yn gynnil, gynnil
O'i geiniog ddyddiau fu –
Yng nghyfnod blin y rhyfel
Troi'n wyn wnaeth deryn du.

A wir mae Mari Lewis
Yn parchu'r Llwybr Cul,
Pregethu, cynorthwyo
Eglwysi ar y Sul, –
A phob prynhawn dydd Mercher.
Ymweld i roddi llith
Grefyddol ym Mryn Seiont
A'r henoed tan y gwlith

Fe soniodd Daniel Owen
Am Fari Lewis gynt
Daw enw'r Fari honno
Yn fynych ar y gwynt –
A dyma Fari Lewis,
Fydd eto fyw yn hir,
A deil ei gweithgareddau
I berarogli'r tir.

Blynyddoedd lawer eto
A fo i'r Fari glên
Un gynnes iawn ei chalon,
A golud lond ei gwên
Hwyl fawr! a bendith arnoch
A ddywed torf ddi-ri'
Wel, seren aur Yr Herald
Yw Mari Lewis ni.

Tom Garreg Fawr,
Dros y Nant, Waunfawr.

Bûm yn gwrando ar Mrs Williams yn pregethu ym Methel ychydig wythnosau yn ôl, a chyn i mi gyrraedd y tŷ acw bron – 'roedd hi ar y ffôn yn gofyn fy marn ar ei phregeth, ac mi gefais bregeth arall ganddi am fynd o'r oedfa mor slei ac am beidio mynd ati am sgwrs ar y diwedd.

Ydi mae Mari Lewis yn gymeriad ar ei phen ei hun – pob hwyl iddi i'n diddanu am lawer blwyddyn eto.

I gloi'r Llannerch am y tro dyma gerdd wladgarol o waith un o'r ffyddloniaid, Enid Jones, Tal-y-sarn.

Pob llwyddiant i blant y fro yn Eisteddfod yr Urdd.

CYMRU FY NGWLAD

**O na chawn i weld Gymru fach eto'n rhydd**
**Heb un trais, heb un gormes yn bod;**
**Heb sŵn yn y nen, ond yr adar uwchben**
**Yn telori a chanu ei chlod.**

**'Does unman yn debyg i'r hen Walia Wen,**
**Gwlad y beirdd a llenorion o fri.**
**Gwlad crefydd a chân a chymdeithas sydd lân,**
**Dyma'r orau o ddigon i mi.**

**Er crwydro ar hyd y cyfandir i gyd**
**Ac er gweled dinasoedd sydd bell.**
**Mae pob cwm a nant, pob mynydd a phant**
**Yng Nghymru yn llawer iawn gwell.**

**Beth rydd fwy o swyn na brefiadau yr ŵyn,**
**Miri plant ar heolydd fy mro.**
**A phan ddaw yr amser i'm orffwys mewn hedd,**
**Rhowch im orwedd mewn bedd yn ei gro.**

## YN EISIAU

**Beic i blentyn 4-6 oed. Williams, Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ffôn: C'fon 3485.**

## AR WERTH

BRYN ALUN, BETHEL

Tŷ gyda thair llofft, cegin, parlwr, ystafell fyw, bathrwm. Gardd fechan a stydi-ystafell ychwanegol. Dodrefn a charpedi

Addas iawn i bâr ifanc. Am fanylion pellach ffoniwch Portdinorwig 670328

Car – Morris 1,000 (1962) – JJC 390. I'w werthu fel ag y mae ar gyfer partiau. Injian dda a rhai rhannau eraill mewn cyflwr da. £40 neu'r cynnig agosaf. Ffôn: Llanberis 760.

# FFAIR HAF YSGOL PENDALAR

**Agorwyd Ysgol Pendalar ym mis Ionawr, 1969. Cyn hyn yr oedd y plant a'r oedolion yn cael eu hyfforddi yn hen ysgol Llanddinorwig, Deiniolen. Y mae hanner cant o blant rhwng 2 a 18 mlwydd oed yn cael eu haddysg yn Ysgol Pendalar heddiw, mewn chwe dosbarth.**

**Y mae dalgylch yr ysgol o Fangor i'r Waunfawr, ac o Fethesda i Ben-y-groes. Mae un bws, dau fws-mini a chwe char yn cludo'r plant yn ddyddiol i'r ysgol.**

**Uchelgais yr ysgol eleni yw codi arian i adeiladu Pwll Nofio Therapiwtig. Bydd y pwll o fudd i blant yr ysgol, yn enwedig i'r rhai bach na allant gerdded, gan fod teimlad o ryddid yn y dŵr yn eu galluogi i ymlacio a symud eu cyhyrau.**

**Yn y gorffennol, mae mudiadau gwirfoddol o ddalgylch yr ysgol wedi ein helpu yn ardderchog i ddod at ein targed. Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 14, ceisiwn gyrraedd y nod o dros £10,000 drwy gynnal Ffair Haf ar dir yr ysgol am 2.00 y prynhawn. Gobeithiwn gael un o sêr rhaglenni teledu'r plant i agor y ffair, a bydd mwy o fanylion am hyn ar bosteri yn y cylch ymhellach ymlaen.**

**Hoffwn ddiolch o galon i'r cyhoedd am eu holl gefnogaeth yn y gorffennol a gobeithiwn y gallwch ddod i'r Ffair.**



*Rhai o blant lleiaf ysgol Pendalar yn ceisio ystwytho eu cyhyrau.*

# NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU – I Siân Llys Awel ar ei llwyddiant mewn arholiad piano (ysgrifenedig)

CYDYMDEIMLIR – Â Mr T.J. Roberts, Llys Awel ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith sef Hugh Davies, Llanberis.


GWAELEDD – Mae llawer o waeledd o hyd yn yr ardal. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Derlwyn S. Jones, Dwyfor a John C. Williams, Cae Perthi sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon; i Mrs Marian Pritchard sydd wedi dod adref ar ôl triniaeth lawfeddygol a hefyd i Charles Lovell, Bro Glyder sydd wedi ei gaethiwo i'w gartref.

CROESO – Yn ôl i'w hen gartref i Mrs Elizabeth Roberts sydd wedi dod yn ôl i'r Nant i gartrefu gyda'i brawd, Griffith Closs, Tan y Bryn.

Er y gwres yr wythnosau diwethaf, mae eira o hyd i'w weld mewn cilfach ar y Grib Goch ac mae hi o fewn ychydig ddyddiau i fod yn fis Mehefin.

DIOLCH – Dymuna Mrs Marian Pritchard, Bronallt ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd, ymweliad a chardiau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.


**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# DYDDIADUR

MEHEFIN
2, Llun. PENISARWAUN. Noson Goffi dan nawdd Undeb y Mamau. yr elw at Gymorth Cristnogol. LLANBERIS. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
4, Mercher : BETHEL. Taith Gerdded y Dawnswyr Morris.
5, Iau: WAUNFAWR. Sefydliad y Merched – sgwrs gan Mr David Jones, y Swyddog Nyrsio Rhanbarthol.
6, Gwener: LLANBERIS. Te bach yr Henoed. DEINIOLEN. Noson Goffi Clwb Elidir yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch.
7, Sadwrn: LLANBERIS. Taith Gerdded Noddedig Carnifal '80. DINORWIG. Y Gymdeithas Lenyddol Undebol – Gwibdaith flynyddol i Southport a Lerpwl.
9, Llun: LLANBERIS. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
10, Mawrth: BETHEL. Gwibdaith Clwb Bro Rhos. LLANRUG. Merched y Wawr – taith i Gonwy a Phlas Maenan.
11, Mercher: BETHEL. Taith ddirgel Merched y Wawr.
12, Iau: LLANBERIS. Cyfarfod Cyhoeddus dan nawdd Cangen Plaid Cymru yng nghwmni yr Aelod Seneddol a'r Cynghorwyr lleol yn y Ganolfan am 7.30.
14, Sadwrn: YR ARDAL. Ffair Haf yn Ysgol Pendalar, Caernarfon am 2 o'r gloch.
16, Llun: LLANBERIS. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
16, Mawrth: LLANRUG – Gwibdaith Undeb y Mamau.
19, Iau: BETHEL. Sefydliad y Merched.
20, Gwener: LLANBERIS. Te bach yr Henoed. CWM Y GLO. Bwffe y Tim Pêl-droed yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis. DEINIOLEN. Taith ddirgel Cangen Plaid Cymru.
21, Sadwrn: CWM Y GLO: Gwibdaith flynyddol y Pensiynwyr i Landudno. LLANRUG: Arwerthiant dan nawdd Pwyllgor Merched y Seindorf yn 'Feed My Lambs', Caernarfon. WAUNFAWR A BETHEL. Gwibdaith Sefydliad y Merched i Gastell Powys.
22-28: Wythnos Garnifal Bethel. Wythnoegƒifal llanrug.
22, Sul: BETHEL. Cymanfa Ganu yng Nghapel Cysegr am 7 o'r gloch.
23, Llun: BETHEL. Disgo i'r plant yn y Neuadd am 6.30. LLANBERIS. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
24, Mawrth: BETHEL. Helfa Drysor.
25, Mercher: BETHEL. Chwaraeon yng Nghae Bro Rhos am 6.30.
26, Iau: WAUNFAWR. Helfa Drysor Merched y Wawr. BETHEL. Rowndiau Terfynol y Gystadleuaeth Bêl-droed am 6.30 yn y cae chwarae.
27, Gwener: BETHEL. Noson Lawen yn y Neuadd am 7.30.
28, Sadwrn: BETHEL. Y Carnifal.

DYDDIADAU I'W COFIO

GORFFENNAF
4. Carnifal a Mabolgampau Penisarwaun
6-12. Wythnos Garnifal Deiniolen.
10. Gwibdaith Clwb Blodau'r Grug, Llanrug.
12-19. Wythnos Garnifal Llanberis.



**Dwy Saesnes yn siarad ar y stryd yn Llanrug yn ystod y tywydd braf a gawsom yn ddiweddar. Un yn gwneud sylw ar pa mor gynnes oedd hi a'r llall yn ateb ". . . Yes, it's exactly as if we were in a foreign country isn't it?"**

# CYSTADLEUAETH Y MIS!

Daeth i glyw yr Eco yn ddiweddar fod rhai pobl yn dinoethi eu penolau ar ymyl lein bach yr Wyddfa, ac o'r herwydd yn tarfu ar ysblander yr olygfa a welir gan y teithwyr.

Tybed beth mae teithwyr y trên yn ei ddweud? Anfonwch eich cynigion i'r Golygydd, 23, Glanffynnon, Llanrug.

Bydd gwobr o £2 i'r un a ddyfernir yn orau.



O.N. Mae hon yn stori wir!

## CYMYSGU'R CHWARELI

*Bryn Hyfryd,*
*Groeslon,*
*Caernarfon,*
*Gwynedd,*
*LL54 7TN*

*Annwyl Syr,*
*A gafi fi gywiro un peth am y llun a anfonwyd gan Mr E. Thomas, nid Chwarelwyr Dinorwig ydyw, Chwarel y Glyn yw. Mae y llun yn fy meddiant, mae llun fy nhad ynddo a dau neu dri arall o Fetws Garmon. Y person ar y dde yn yr het wellt oedd Mr Davies y Stiward.*

*Yn gywir iawn,*
*E. Hughes (Mrs)*

**Mae'n ddrwg gennym Mrs Hughes. Camgymeriad y Golygydd Erthyglau oedd hwn ac nid Mr G. Thomas – Gol. Erthyglau**

## AR Y RADIO

**Eco'r Wyddfa oedd y papur bro a hawliodd sylw Sulwyn Thomas yn ei raglen radio 'Stondin Sulwyn' fore Gwener, Mai 23. Gwestai'r Eco oedd Arwel Jones, y cyn-olygydd erthyglau ac fe'i holwyd ar y ffôn gan Miss Mary Vaughan Jones, Waunfawr, Mr O.R. Williams, Dinorwig a Mr Ken Jones, Blaenddol, Llanberis.**

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


WIL a VAL GUY
TREFLYN STORES
BETHEL
Bwydydd, Melysion, Teganau a Diodydd
Y FELINHELI 670237

OSMOND W. SHAW
Peiriannydd Radio a Theledu & Gwasanaeth Awdio
BWLCH UCHAF
DEINIOLEN
*Ffôn Llanberis 545*
*Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch*

EVANS VEHICLE BODY REPAIRS & PANEL BEATERS
CLWT-Y-BONT
*Ffôn: LLANBERIS 611*
am drwsio
TOLCIAU, WELDIO, SPREIO, ATGYWEIRIO
wedi damwain, ac ati.
*CEIR AIL-LAW AR WERTH*

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth
E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis 491
MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

# CHWARAEON

## CANOLFAN CHWARAEON AC ADLONIANT I'R ARDAL

**Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Adloniant Caernarfon a'r Cylch nos Lun, Ebrill 28. Yn ei adroddiad blynyddol, dywed yr ysgrifennydd, Mr R. Haines fod cwmwl go ddu wedi bod yn hofran uwchben y project, yn enwedig o gofio am y cwtogi sylweddol a fu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar wariant llywodraeth leol. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'n ymddangos fod haul ar fryn, ac y gwireddir y breuddwyd o Ganolfan Chwaraeon-Adloniant i Gaernarfon a'r Cylch o fewn y ddwy flynedd nesaf; i'w hadeiladu ar dir Ysgol Syr Hugh Owen (safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym 1979).**

Bu'n rhaid i Gynor Gwynedd gwtogi ar ei wariant oherwydd gofynion y Llywodraeth, ac yn anffodus, un o'r pethau a ddioddefodd oedd yr addewid i helpu Canolfan Caernarfon a'r Cylch yn ariannol. Ar yr ochr gadarnhaol, addawodd Cyngor Arfon frwydro ymlaen, ac o ystyried y bydd cost y Ganolfan dros filiwn o bunnau, y mae hyn o galondid mawr i'r Pwyllgor Adloniant.

Bu Is-bwyllgor Chwaraeon Cyngor Arfon yn ymweld â nifer o ganolfannau gwahanol ar hyd a lled y wlad, a bu hyn o gymorth iddynt i baratoi cynlluniau o'r Ganolfan arfaethedig yng Nghaernarfon. Mae'r cynlluniau manwl bellach yn barod, ac y mae model o'r Ganolfan eisoes wedi ei baratoi gan yr Ymgynghorwyr, y Mr. Alex Gordon a'i Bartneriaid, Caerdydd. Maent hefyd wedi agor swyddfa yng Nghaernarfon. Trefnir i arddangos y model yn un o ffenestri siopau'r dref yn y dyfodol agos.


Gobeithir gwahodd tendrau am y gwaith yn fuan, a dechrau ar y gwaith cyn dechrau'r hydref fan bellaf. Y bwriad yw cwblhau'r gwaith erbyn gwanwyn neu haf 1982. Yn y cyfamser, fodd bynnag, bydd gwaith y Pwyllgor Adloniant yn parhau. Mae angen casglu rhwng £50,000 a £100,000 i brynu offer ar gyfer y Ganolfan. Dyma'r fenter fwyaf uchelgeisiol hyd yma gan y Pwyllgor Adloniant. Ar hyn o bryd maent wrthi'n paratoi pamffledyn lliw ar y Ganolfan a bydd hwnnw'n cael ei ddosbarthu i bob cartref yn y dalgylch. Y dalgylch i'r Ganolfan yw ardal hen Gyngor Dosbarth Gwyrfai, neu ddalgylch ysgolion uwchradd Syr Hugh Owen, Caernarfon, Dyffryn Nantlle, Penygroes a Bryn'refail, Llanrug. Pwrpas y pamffledyn fydd dod â'r Ganolfan i sylw'r cyhoedd, ac ar yr un pryd, lansio apêl i godi arian tuag at brynu cyfarpar addas iddi.

Cawsom ganiatâd i ddangos y lluniau hyn sy'n rhoi syniad o'r math o ystafelloedd a darpariaeth a fydd yn y Ganolfan. Bydd yr adnoddau canlynol yn cael eu hymgorffori yn y Ganolfan newydd: (a) pwll nofio; ond ni fydd cyfleusterau deifio ar gael. (b) pwll dysgu ar gyfer plant. (c) Cyrtiau chwarae sboncen (squash). (ch) Neuadd 120' x 60' ar gyfer gwahanol chwaraeon dan do e.e. gymnasteg, pêl-droed 5-bob-ochr, badminton, pêl foli. (d) ystafelloedd oll-bwrpas e.e lle bwyta a bar.


Felly, bobl ardal 'Eco'r Wyddfa', rhowch bob cefnogaeth i'r cynllun hwn, a pheidiwch â bod yn gyndyn i roi'ch llaw yn eich poced i gyfrannu tuag at yt apêl. Gall olygu canolfan chwaraeon-adloniant addas i blant a phobl ieuanc yr ardal yn y blynyddoedd sydd i ddod, ag arbed iddynt orfod teithio mor bell â Bangor neu Langefni.

Os oes unrhyw un yn barod i helpu'r Pwyllgor Adloniant yn eu hymdrech i ddosbarthu pamffledi neu i gasglu arian, yna cysyllter â:

R. Haines
29 Stryd y Farchnad
Caernarfon
Ffôn: C'fon 4565




**Llun o'r model a fydd yn cael ei arddangos yn un o siopau Caernarfon yn y dyfodol agos.**




Cynllun o safle'r Ganolfan chwaraeon ar ffordd Bethel, Caernarfon.


## LLWYDDIANT LLANBERIS




**Tîm Llanberis ar ôl ennill Cwpan J.W. Lees (Gogledd Cymru) ym Mae Colwyn, Mai 13 yn erbyn Connah's Quay Nomads 2-1. Ar ôl chwarae amser ychwanegol y sgorwyr i Lanberis oedd Ray Harding a Keith Davies.**

## CLWB SNWCER DEINIOLEN

**Yn ystod tymor 1979-80 galwyd cwmni o Hull i adnewyddu dau fwrdd Snwcer y Clwb am gost o £350. Ar gais y pwyllgor cytunodd 9 o fechgyn ieuainc y clwb gynnal 'Snwcer Noddedig', ac wedi casglu nifer dda o noddwyr bu'r hogia' yn chwarae snwcer am chwe awr o 6 o'r gloch nos Wener Ebrill 18. O ganlyniad i'r noson casglwyd £215. Rhoddwyd dwy wobr am ddau rediad gorau'r noson ac fe'u henillwyd gan Euryn Owen, Noel Owen a Gareth Williams. Da iawn hogia' a diolch yn fawr iawn.**



**Noel Owen, Euryn Williams, Gareth Williams ac Aled Jones.**



**Euryn Owen, Kelvin Lewis, Dilwyn Jones ac Adrian Evans. Nid yw nawfed aelod y grŵp yn y lluniau. Ni wyddys ai swildod ynteu oedran a achosodd i Elfed Williams aros o'r neilltu a pheidio wynebu'r camera.**